# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 6 Gorffennaf 2020

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (09:00-09:30)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09:30

## 2 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

09:30-09:40

Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol

**2.1 SL(5)560 - Rheoliadau Gwastraff (Deddfiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 1 - 9)

**CLA(5)-21-20 - Papur 1** - Adroddiad

**CLA(5)-21-20 - Papur 2** - Rheoliadau

**CLA(5)-21-20 - Papur 3** - Memorandwm Esboniadol

**2.2 SL(5)562 - Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffedіad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

(Tudalennau 10 - 22)

**CLA(5)-21-20 - Papur 4** - Adroddiad

**CLA(5)-21-20 - Papur 5** - Rheoliadau

**CLA(5)-21-20 – Papur 6** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-21-20 – Papur 7** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Llywydd, 19 Mehefin 2020

**2.3 SL(5)565 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020**

(Tudalennau 23 - 38)

**CLA(5)-21-20 – Papur 8** – Adroddiad

**CLA(5)-21-20 – Papur 9** – Rheoliadau

**CLA(5)-21-20 – Papur 10** – Memorandwm Esboniadol

**2.4 SL(5)566 – Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020**

(Tudalennau 39 - 48)

**CLA(5)-21-20 – Papur 11** – Adroddiad

**CLA(5)-21-20 – Papur 12** – Rheoliadau

**CLA(5)-21-20 – Papur 13** – Memorandwm Esboniadol

Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol 'gwnaed'

**2.5 SL(5)563 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020**

(Tudalennau 49 - 65)

**CLA(5)-21-20 – Papur 14** – Adroddiad

**CLA(5)-21-20 – Papur 15** – Rheoliadau

**CLA(5)-21-20 – Papur 16** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-21-20 – Papur 17** – Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd, 19 Mehefin 2020

**2.6 SL(5)564 – Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 66 - 77)

**CLA(5)-21-20 – Papur 18** – Adroddiad

**CLA(5)-21-20 – Papur 19** – Rheoliadau

**CLA(5)-21-20 – Papur 20** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-21-20 – Papur 21** – Llythyr gan y Gweinidog Addysg at y Llywydd, 22 Mehefin 2020

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE

09:40-09:45

Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol

### 3.1 SL(5)561 – Rheoliadau Deunyddiau Planhigion Llysieuol a Hadau (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

(Tudalennau 78 - 89)

**CLA(5)-21-20 – Papur 22** – Adroddiad

**CLA(5)-21-20 – Papur 23** – Rheoliadau

**CLA(5)-21-20 – Papur 24** – Memorandwm Esboniadol

## 4 Is-ddeddfwriaeth sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

09:45-09:50

### 4.1 SL(5)567 – Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru 2020

(Tudalennau 90 - 96)

**CLA(5)-21-20 – Papur 25** – Adroddiad

**CLA(5)-21-20 – Papur 26** – Hysbysiad

**CLA(5)-21-20 – Papur 27** – Datganiad ysgrifenedig

### 4.2 SL(5)571 – Hysbysiad addasu adran 3 o Ddeddf Addysg 1996 (Cymru) 2020

(Tudalennau 97 - 100)

**CLA(5)-21-20 – Papur 28** – Adroddiad

**CLA(5)-21-20 – Papur 29** – Hysbysiad

## 5 Papur(au) i'w nodi

09:50-09:55

**5.1 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Ymateb i'r adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Pysgodfeydd**

(Tudalennau 101 - 109)

**CLA(5)-21-20 – Papur 30** – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 30 Mehefin 2020

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

09:55

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Amaethyddiaeth - Trafod yr adroddiad drafft

09:55-10:15 (Tudalennau 110 - 121)

**CLA(5)-21-20 – Papur 31** – Adroddiad drafft

**CLA(5)-21-20 – Papur 32** – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 29 Mehefin 2020

## 8 Blaenraglen waith - Trafodaeth

10:15-10:30 (Tudalennau 122 - 128)

**CLA(5)-21-20 – Papur 33** – Blaenraglen waith

## Dyddiad y cyfarfod nesaf - 13 Gorffennaf 2020

# SL(5)560 – Rheoliadau Gwastraff (Deddfiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2020

## Cefndir a diben

Efallai y bydd angen i Weinidogion Cymru ymyrryd i atal niwed i'r amgylchedd neu iechyd y cyhoedd a achosir gan anawsterau gwaredu gwastraff yn y sector gwastraff oherwydd lledaeniad COVID-19. I fynd i'r afael â hyn, efallai y bydd angen i Weinidogion ddefnyddio pwerau Cyfarwyddo i'w gwneud yn ofynnol i bersonau fynd â gwastraff i safleoedd penodol ac i'w gwneud yn ofynnol i'r safleoedd hynny dderbyn y gwastraff hwnnw.

O dan adran 57(1) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo deiliad unrhyw drwydded amgylcheddol sy'n awdurdodi gweithrediad gwastraff i dderbyn a chadw, neu dderbyn a thrin neu waredu, gwastraff mewn mannau penodedig o dan delerau penodedig.

O dan adran 57(2) o Ddeddf 1990, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo unrhyw berson sy'n cadw gwastraff ar dir i ddanfon y gwastraff i berson penodedig o dan delerau penodedig, gyda'r nod bod y gwastraff yn cael ei drin neu ei waredu gan y person hwnnw.

Mae adran 57(6) o Ddeddf 1990 yn caniatáu i ddeddfiadau gael eu rhagnodi gan Reoliadau i sicrhau na chaiff person fod yn euog o drosedd o dan y deddfiadau hynny oherwydd unrhyw beth a wneir er mwyn cydymffurfio â Chyfarwyddyd o dan adran 57.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r deddfiadau a ganlyn at ddibenion Adran 57(6) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (amddiffyniadau yn achos cydymffurfio â chyfarwyddyd):

- Adrannau 33, 34 a 47 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990,
- Adrannau 171G, 179, 187, 187A, 216 a 331 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990,
- Adran 23 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990,
- Rheoliad 65 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005,
- Rheoliad 56 o Reoliadau Batris a Chronaduron Gwastraff 2009,
- Rhannau 5, 8, a 9 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, a
- Rheoliad 38 o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1) Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Pwyllgor yn nodi na chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad nac asesiad effaith reoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, ac mae'n nodi hefyd yr esboniadau a roddwyd yn y Memorandwm Esboniadol:

"Ni ymgynghorwyd ar Reoliadau Gwastraff (Deddfiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2020 oherwydd nad ydynt yn cyflwyno newidiadau digonol i bolisi neu'n effeithio ar fusnesau neu'r cyhoedd mewn ffordd a fyddai'n golygu bod angen cynnal ymgynghoriad. Diben y Rheoliadau yw hwyluso'r defnydd o'r pwerau sydd eisoes yn bodoli a lleihau'r risg o herio neu fethiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd. Nid yw ymgynghori yn ofyniad cyfreithiol." Hefyd:

"Mae'r angen am y rheoliadau wedi'i nodi yn rhan o'r gwaith cynllunio wrth gefn ar gyfer materion a all godi yn sgil lledaeniad Covid-19. Oherwydd yr amser cyfyngedig sydd ar gael i baratoi Rheoliadau Gwastraff (Deddfiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2020, nid oes Asesiad Effaith wedi'i lunio. Ni ragwelir unrhyw effaith sylweddol ar y sector preifat, gwirfoddol neu gyhoeddus. Ni fydd y ddeddfwriaeth yn creu newidiadau o sylwedd i bolisi. Diben y Rheoliadau yw hwyluso'r pwerau sydd eisoes yn bodoli a lleihau'r risg o herio neu fethiant i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau."

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**26 Mehefin 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 594 (Cy. 135)

# YR AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Gwastraff (Deddfiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi deddfiadau amrywiol at ddibenion adran 57(6) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ("Deddf 1990").

O dan adran 57(1) o Ddeddf 1990, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo deiliad unrhyw drwydded amgylcheddol sy'n awdurdodi gweithrediad gwastraff i dderbyn a chadw, neu dderbyn a thrin neu waredu, gwastraff mewn mannau penodedig o dan delerau penodedig.

O dan adran 57(2) o Ddeddf 1990, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo unrhyw berson sy'n cadw gwastraff ar dir i ddanfon y gwastraff i berson penodedig o dan delerau penodedig, gyda'r nod bod y gwastraff yn cael ei drin neu ei waredu gan y person hwnnw.

Mae adran 57(6) o Ddeddf 1990 yn caniatáu i ddeddfiadau gael eu rhagnodi gan Reoliadau i sicrhau na chaiff person fod yn euog o drosedd o dan y deddfiadau hynny oherwydd unrhyw beth a wneir er mwyn cydymffurfio â Chyfarwyddyd o dan adran 57.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 594 (Cy. 135)

# YR AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Gwastraff (Deddfiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *15 Mehefin 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *17 Mehefin 2020* |
| *Yn dod i rym* | *9 Gorffennaf 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 57(6) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**1**).

### Enwi, cychwyn a dod i ben

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwastraff (Deddfiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Gorffennaf 2020.

### Deddfiadau a ragnodwyd at ddibenion adran 57(6) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990

**2.**—(1) Mae'r deddfiadau a ganlyn wedi eu rhagnodi at ddibenion adran 57(6) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990—

(a) adrannau 33, 34 a 47 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**2**);

(**1**) 1990 p. 43. Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru o dan adran 57, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), a pharagraff 1 o Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd y pwerau hynny wedi hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**2**) Diwygiwyd adran 33 gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005, O.S. 2007/3538, O.S. 2006/937, O.S. 2009/1799, O.S. 2015/664, O.S. 2016/1154 ac O.S. 2019/620. Diwygiwyd adran 34 gan O.S. 2000/1973, O.S. 2005/2900, O.S. 2006/123 (Cy. 16),

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) adrannau 171G, 179, 187, 187A, 216 a 331 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**);

(c) adran 23 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990(**2**);

(d) rheoliad 65 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005(**3**);

(e) rheoliad 56 o Reoliadau Batris a Chronaduron Gwastraff 2009(**4**);

(f) rhannau 5, 8, a 9 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011(**5**); a

(g) rheoliad 38 o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016(**6**).

(2) Ni chaiff person fod yn euog o drosedd o dan y deddfiadau hyn oherwydd unrhyw beth o angenrheidrwydd a wneir neu nas gwneir er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd o dan adran 57 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

*Hannah Blythyn*
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol, o dan awdurdod y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
15 Mehefin 2020

---

O.S. 2007/3538, O.S. 2009/1799, O.S. 2010/675 ac O.S. 2011/988.

(**1**) 1990 p. 8. Ychwanegwyd adran 171G gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2015/664. Amnewidiwyd adran 179 gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2015/664. Diwygiwyd adran 187 gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, a chan O.S. 2015/664. Ychwanegwyd adran 187A gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, ac fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011. Diwygiwyd adran 216 gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991.

(**2**) 1990 p. 10 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991, a chan O.S. 2015/664.

(**3**) O.S. 2005/1806 (Cy. 138), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/971 (Cy. 141).

(**4**) O.S. 2009/890, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/188.

(**5**) O.S. 2011/988, y ceir diwygiadau amrywiol iddo.

(**6**) O.S. 2016/1154, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2018/1227.

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Gwastraff (Deddfiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Dai a Llywodraeth Leol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwastraff (Deddfiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2020.

Hannah Blythyn
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol
17 Mehefin 2020

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

Byddai'r Rheoliadau hyn yn atal deiliad trwydded amgylcheddol, neu berson sy'n cadw gwastraff ar dir y cyflwynir cyfarwyddyd iddo gan un o Weinidogion Cymru i gymryd gwastraff i safle penodol neu i dderbyn gwastraffau penodol, rhag bod yn atebol i erlyniad am dorri deddfiadau eraill.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

## 3. Y Cefndir deddfwriaethol

Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 57 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i Senedd Cymru ac maent wedi'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru.

O dan adran 57(1) o Ddeddf 1990, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo deiliad unrhyw drwydded amgylcheddol sy'n awdurdodi gweithred yn ymwneud â gwastraff i dderbyn a chadw gwastraff, neu ei dderbyn a'i drin neu ei waredu, mewn safleoedd penodedig ar delerau penodedig.

O dan adran 57(2) o Ddeddf 1990, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo unrhyw berson sy'n cadw gwastraff ar dir i draddodi'r gwastraff i berson penodedig ar delerau penodedig, er mwyn iddo gael ei drin neu ei waredu gan y person hwnnw.

Mae adran 57(6) o Ddeddf 1990 yn caniatáu i ddeddfiadau gael eu rhagnodi drwy Reoliadau i sicrhau na fydd person yn euog o drosedd o dan ddeddfiadau o'r fath oherwydd unrhyw beth a wneir i gydymffurfio â Chyfarwyddyd o dan adran 57.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r deddfiadau a ganlyn at ddibenion Adran 57(6) o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (amddiffyniadau yn achos cydymffurfio â chyfarwyddyd).

- Adrannau 33, 34 a 47 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990,
- Adrannau 171G, 179, 187, 187A, 216 a 331 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990,
- Adran 23 o Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990,
- Rheoliad 65 o Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005,
- Rheoliad 56 o Reoliadau Batris a Chronaduron Gwastraff 2009,
- Rhannau 5, 8, a 9 o Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011, a
- Rheoliad 38 o Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.

Mae adran 161 o'r Ddeddf yn nodi bod Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Gallai lledaeniad COVID-19 gynyddu'r pwysau ar y ffordd y caiff gwastraff ei reoli yng Nghymru. Efallai y bydd angen i Weinidogion Cymru ymyrryd i atal niwed i'r amgylchedd neu iechyd y cyhoedd a achosir gan anawsterau gwaredu gwastraff yn y sector gwastraff. Efallai y bydd angen i Weinidogion ddefnyddio pwerau Cyfarwyddo i'w gwneud yn ofynnol i bersonau gymryd gwastraff i safleoedd penodol ac i'w gwneud yn ofynnol i'r safleoedd hynny dderbyn y gwastraff hwnnw.

Diben y Rheoliadau hyn yw atal y rheini a gyfarwyddir rhag bod yn atebol i erlyniad am dorri deddfiadau eraill, drwy ragnodi'r deddfiadau perthnasol mewn Rheoliadau.

Bydd gallu Gweinidogion i gyfarwyddo gweithredwyr gwastraff yn gam lliniaru pwysig pe bai materion difrifol yn dod i'r amlwg yn sgil pentyrru gwastraff neu waredu gwastraff heb awdurdod. Gall fod angen cyflwyno cyfarwyddydau i weithredwyr nad ydynt yn gyfrifol am unrhyw faterion a achosir gan y gwastraff, ond, sydd â'r cyfleusterau/gallu i reoli gwastraff yn y ffordd fwyaf priodol. Byddai'n annheg i fusnes sy'n cael ei gyfarwyddo i helpu i reoli problemau ehangach y gymuned fod yn gyfrifol am unrhyw achos cysylltiedig o dorri deddfwriaeth. Heb y Rheoliadau, gallai'r posibilrwydd o orfodi ac erlyn yn erbyn cwmni effeithio ar gyllid ac enw da y cwmni hwnnw. Mae cyflwyno'r Rheoliadau yn lleihau'r risg o herio neu beidio â chydymffurfio â Chyfarwyddyd, a fydd yn lleihau'r posibilrwydd o oedi ar adeg pan all fod angen brys i ymdrin ag unrhyw broblemau gwastraff.

Byddai defnyddio Cyfarwyddyd yn cael ei ystyried mewn achosion pan fo perygl posibl i iechyd y cyhoedd neu'r amgylchedd neu effaith bosibl ar fusnesau a chymunedau. Byddai'r union beryglon yn cael eu hystyried yn ofalus ar y pryd, cyn bod penderfyniad i gyflwyno Cyfarwyddyd yn cael ei wneud.

## 5. Ymgynghori

Ni ymgynghorwyd ar Reoliadau Gwastraff (Deddfiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2020 oherwydd nad ydynt yn cyflwyno newidiadau digonol i bolisi neu'n effeithio ar fusnesau neu'r cyhoedd mewn ffordd a fyddai'n golygu bod angen cynnal ymgynghoriad. Diben y Rheoliadau yw hwyluso'r defnydd o'r pwerau sydd eisoes yn bodoli a lleihau'r risg o herio neu fethiant i gydymffurfio â chyfarwyddyd. Nid yw ymgynghori yn ofyniad cyfreithiol.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r angen am y rheoliadau wedi'i nodi yn rhan o'r gwaith cynllunio wrth gefn ar gyfer materion a all godi yn sgil lledaeniad Covid-19. Oherwydd yr amser cyfyngedig sydd ar gael i baratoi Rheoliadau Gwastraff (Deddfiadau Rhagnodedig) (Cymru) 2020, nid oes Asesiad Effaith wedi'i lunio. Ni ragwelir

unrhyw effaith sylweddol ar y sector preifat, gwirfoddol neu gyhoeddus. Ni fydd y ddeddfwriaeth yn creu newidiadau o sylwedd i bolisi. Diben y Rheoliadau yw hwyluso'r pwerau sydd eisoes yn bodoli a lleihau'r risg o herio neu fethiant i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddydau.

**7. Adolygu ar ôl gweithredu**

Caiff y Rheoliadau eu drafftio yn y fath fodd fel mai dim ond pan fo gweithredwyr gwastraff yn gweithredu o dan Gyfarwyddyd y mae'r deddfiadau rhagnodedig yn cael effaith. Nid yw cyfnod adolygu ar ôl gweithredu yn ofynnol felly.

Eitem 2.2

# SL(5)562 – Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Mae adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn sicrhau na chaniateir gorfodi ailfynediad neu fforffediad am beidio â thalu rhent mewn perthynas â'r holl fathau o denantiaid masnachol yn ystod y cyfnod perthnasol ("relevant period"). Mae adran 82(12) o'r Ddeddf yn diffinio'r "relevant period" fel cyfnod sy'n dechrau ar 26 Mawrth 2020, ac sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2020 neu ar unrhyw ddyddiad diweddarach a bennir mewn rheoliadau a wneir gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol.

Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol o ran Cymru. Yn unol â hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn estyn y cyfnod perthnasol hyd 30 Medi 2020. O ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, mae'r moratoriwm a ddarperir gan adran 82 o'r Ddeddf wedi ei estyn hyd 30 Medi 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn **llythyr** at y Llywydd, dyddiedig 19 Mehefin 2020.

Yn benodol, nodwn y paragraffau canlynol yn y llythyr hwnnw:

> "Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod y mater hwn â Llywodraeth y DU, mewn perthynas â Chod Ymarfer ar gyfer landlordiaid a thenantiaid sydd â'r nod o hybu gwell cydweithredu rhwng partïon sy'n ymdrin â'r heriau mae COVID-19 yn eu peri i fusnesau, wrth iddo effeithio ar drefniadau tenantiaeth fusnes. Er mwyn rhoi digon o amser i'r partïon perthnasol ystyried y Cod, mae'r Rheoliadau wedi cael eu gosod lai na 21 diwrnod cyn iddynt ddod i rym.
>
> Byddai peidio â dod â'r Rheoliadau i rym o 30 Mehefin yn arwain at fwlch annymunol yn y mesurau diogelu sydd â'r nod o hyrwyddo sefydlogrwydd a chadernid ar adeg sy'n hynod anodd i economi

Cymru. Credir bod torri'r confensiwn 21 diwrnod yn angenrheidiol yn yr achos hwn ac y gellir cyfiawnhau gwneud hynny."

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn, ond rydym yn croesawu eglurder y deunydd esboniadol (gan gynnwys y Nodyn Esboniadol, y Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n ddefnyddiol iawn o ran cyflwyno cefndir y Rheoliadau hyn.

Mae darparu deunydd esboniadol mewn ffordd glir a defnyddiol yn helpu'r Pwyllgor i graffu'n effeithiol ac yn effeithlon.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**29 Mehefin 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

## 2020 Rhif 606 (Cy. 140)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn sicrhau na chaniateir gorfodi ailfynediad neu fforffediad am beidio â thalu rhent mewn perthynas â'r holl fathau o denantiaid masnachol yn ystod y cyfnod perthnasol ("relevant period"). Mae adran 82(12) o'r Ddeddf yn diffinio'r "relevant period" fel cyfnod sy'n dechrau ar 26 Mawrth 2020, ac sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2020 neu ar unrhyw ddyddiad diweddarach a bennir mewn rheoliadau a wneir gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol.

Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol o ran Cymru. Yn unol â hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn estyn y cyfnod perthnasol hyd 30 Medi 2020. O ganlyniad i'r Rheoliadau hyn, mae'r moratoriwm a ddarperir gan adran 82 o'r Ddeddf wedi ei estyn hyd 30 Medi 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 606 (Cy. 140)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *17 Mehefin 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *19 Mehefin 2020* |
| *Yn dod i rym* | *30 Mehefin 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 82(12) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Mehefin 2020.

**Estyn y cyfnod perthnasol sy'n darparu gwarchodaeth rhag fforffediad etc.**

**2.** At ddibenion adran 82 (tenantiaethau busnes yng Nghymru a Lloegr: gwarchodaeth rhag fforffediad etc.) o Ddeddf y Coronafeirws 2020, mae'r "relevant period" fel y'i diffinnir yn is-adran (12) o'r adran honno yn dod i ben, o ran Cymru, ar 30 Medi 2020.

(**1**) 2020 p. 7.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Ken Skates*
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
17 Mehefin 2020

**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Ken Skates AC
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
19 Mehefin 2020

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i ymestyn hyd y moratoriwm a ddarperir gan adran 82 o Ddeddf y Coronafeirws (2020) ("y Ddeddf"), lle na chaniateir gorfodi, drwy weithred neu fel arall, hawl i ailfynediad neu fforffediad, dan denantiaeth busnes berthnasol, am beidio â thalu rhent.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Tra mae'r Rheoliadau'n ymwneud â'r hawl i fwynhau eiddo'n heddychlon (Erthygl 1, Protocol 1) o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod y Rheoliadau'n gymesur, yn angenrheidiol ac er budd y cyhoedd oherwydd yr amgylchiadau eithriadol sy'n deillio o COVID-19.

Mae Erthygl 1, Protocol 1 yn hawl amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawl honno pan fo hynny'n angenrheidiol er budd y cyhoedd yn gyffredinol ac yn gymesur.

Mae'r cyfyngiadau a osodir gan adran 82 o'r Ddeddf yn rhai dros dro ac yn cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y COVID 19 yn erbyn hawliau unigolion a busnesau. Mae ymestyn y cyfyngiadau am 3 mis arall drwy'r Rheoliadau hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r budd cyhoeddus ehangach a achosir gan broblemau hylifedd oherwydd y sefyllfa bresennol a achosir gan COVID-19. Mae'r cyfyngiadau yn gymesur gan eu bod yn caniatáu y bydd rhent yn parhau'n daladwy yn ystod y cyfnod hwn, a bydd landlord yn dal i allu cymryd camau mewn ymateb i beidio â thalu ar ddiwedd y cyfnod perthnasol, ar yr amod nad yw'r landlord a'r tenant wedi ymrwymo i gytundeb gohirio rhent neu gytundeb tebyg arall sy'n atal y landlord rhag cymryd camau o'r fath.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

Mae adran 82 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth na chaniateir gorfodi, drwy achos neu fel arall, hawl i ailfynediad neu fforffediad, o dan denantiaeth fusnes berthnasol, am beidio â thalu rhent, yn ystod y "cyfnod perthnasol". Mae adran 82(12) o'r Ddeddf yn diffinio bod y "cyfnod perthnasol" yn dechrau y diwrnod ar ôl y diwrnod y pasiwyd y Ddeddf (26[ain] Mawrth 2020), ac yn gorffen ar 30[ain] Mehefin 2020, neu ddyddiad diweddarach a bennir gan yr awdurdod cenedlaethol perthnasol mewn rheoliadau. Gellir arfer y pŵer i bennu dyddiad diweddarach ar fwy nag un achlysur er mwyn ymestyn y cyfnod ymhellach.

Gweinidogion Cymru yw'r "awdurdod cenedlaethol perthnasol" mewn perthynas â Chymru, a gallant felly wneud rheoliadau i ymestyn y "cyfnod perthnasol" i warchodaeth y tu hwnt i 30[ain] Mehefin 2020, a thrwy hynny gadw'r warchodaeth

a ddarperir gan adran 82 o'r Ddeddf tan y cyfryw ddyddiad diweddarach ag a bennir mewn rheoliadau.

## 4. Pwrpas y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Diben y Rheoliadau yw pennu bod y "cyfnod perthnasol", fel y'i diffinnir gan adran 82(12) o'r Ddeddf, i ddod i ben ar 30ain Medi 2020 mewn perthynas â Chymru.

Effaith y Rheoliadau yw ymestyn y "cyfnod perthnasol" lle na chaniateir gorfodi, drwy achos neu fel arall, hawl i ailfynediad neu fforffediad, o dan denantiaeth busnes berthnasol, am beidio â thalu rhent, am 3 mis arall hyd at 30ain Medi 2020.

**RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

**5. Opsiynau**

Mae dau opsiwn wedi cael eu hystyried:

Opsiwn 1: Gwneud dim – Caniatáu i'r ddarpariaeth sy'n diogelu tenantiaid masnachol rhag cael eu troi allan oherwydd peidio â thalu rhent i ddod i ben ar 30ain Mehefin 2020.

Opsiwn 2: Gosod Rheoliadau i ymestyn y warchodaeth am 3 mis arall hyd at 30ain Medi 2020.

**Costau a buddiannau**

Mae goblygiadau ariannol posibl yn gysylltiedig â'r ddau opsiwn. Gydag opsiwn 2 efallai y bydd pwysau cynyddol ar i Weinidogion Cymru ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i landlordiaid masnachol yn ystod y cyfnod hwn i wrthweithio'r warchodaeth a ddarperir i denantiaid. Y bwriad wrth ymestyn y warchodaeth yw hwyluso ailddechrau'r economi drwy geisio sicrhau bod busnesau yn dal mewn sefyllfa i weithredu pan gaiff y cyfyngiadau presennol eu codi. Mae'r canlynol yn asesiad ansoddol o effaith debygol y naill opsiwn a'r llall. Ni fu modd cynhyrchu asesiad meintiol ar hyn o bryd.

**Opsiwn 1: Gwneud dim – Caniatáu i'r ddarpariaeth sy'n diogelu tenantiaid masnachol rhag achosion fforffedu oherwydd peidio â thalu rhent i ddod i ben ar 30ain Mehefin 2020.**

Heb lunio Rheoliadau diwygio, daw'r warchodaeth i ben ac o ganlyniad mae mwy o risg y gallai tenantiaid masnachol gael eu troi allan o'u heiddo am beidio â thalu rhent. Gan mai prif nod y ddeddfwriaeth wreiddiol oedd diogelu tenantiaid masnachol a swyddi, byddai dileu'r warchodaeth bresennol yn golygu bod y tenantiaid masnachol hynny - rhai ohonynt efallai wedi cael cymorth ariannol gan Lywodraethau Cymru a'r DU - mewn perygl eto wrth i'r economi wella.

Un o ganlyniadau'r opsiwn hwn yw y bydd landlordiaid masnachol yn rhydd i gymryd camau oherwydd peidio â thalu rhent. Bydd hyn yn arwain un ai at dalu rhywfaint o'r rhent neu'r holl rent sy'n ddyledus gan denantiaid masnachol, neu achosion fforffedu. Fodd bynnag, oherwydd ansicrwydd yr hinsawdd economaidd bresennol, byddai angen i landlordiaid ystyried yn ofalus a fyddent yn elwa'n ariannol gan na fyddai tenantiaid efallai yn gallu gwneud y taliadau angenrheidiol beth bynnag. Gallai fod yn anodd dod o hyd i denant arall, neu werthu'r eiddo, gan fod y galw am ofod masnachol mewn rhai sectorau (e.e. hamdden, adwerthu a lletygarwch) yn debygol o fod wedi lleihau, o leiaf yn y tymor byr.

Gallai mwy o fusnesau fod mewn perygl yn ystod y chwarter nesaf gan fod effeithiau llawn cyfyngiadau'r Coronafeirws yn golygu nad yw llawer o fusnesau wedi cael cyfle i gynhyrchu refeniw digonol i dalu rhent y chwarter nesaf.

Y casgliad yw na fyddai Opsiwn 1 yn cyflawni'r amcan polisi o gefnogi busnes a diogelu tenantiaid masnachol rhag fforffediad yn ystod pandemig y Coronafeirws.

**Opsiwn 2 - Gosod Rheoliadau i ymestyn y warchodaeth am 3 mis arall hyd at 30ain Medi 2020.**

Mae'r Coronafeirws wedi lleihau gweithgarwch economaidd, gan arwain at ostyngiad mewn incwm i lawer o fusnesau. Bydd yr opsiwn hwn yn galluogi Llywodraeth Cymru i barhau i ddiogelu tenantiaid masnachol yn ystod y cyfnod anodd hwn, ond nid yw ychwaith yn dileu gormod ar yr hawliau a'r rhwymedïau sy'n galluogi landlordiaid i weithredu mewn achosion o beidio â thalu rhent.

Mae'r sector a'r farchnad eiddo masnachol yn chwarae rhan bwysig yn yr economi ac o ran gwireddu a darparu seilwaith hanfodol i fusnesau ar ffurf adeiladau masnachol lle gall busnesau weithredu a thyfu. Felly, mae'n bwysig cydnabod anghenion busnesau landlordiaid a thenantiaid.

Mae'r opsiwn hwn yn effeithio ar landlordiaid, eu cyflenwyr, benthycwyr a buddsoddwyr. Mae ffynonellau answyddogol[1] yn amcangyfrif bod y rhenti masnachol a gasglwyd yn chwarter mis Mawrth wedi disgyn dros 25% yn y DU, o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol. Disgwylir i'r sefyllfa waethygu yn chwarter mis Mehefin. Bydd rhai landlordiaid o bosibl yn wynebu 3 mis arall heb incwm rhent, a hynny'n golygu anhawster i wasanaethu dyled/ talu difidendau i fuddsoddwyr. Mae adborth gan gynrychiolwyr landlordiaid yn dweud wrthym mai un o ganlyniadau anfwriadol y moratoriwm ar fforffediad am beidio â thalu rhent yw bod rhai busnesau y credir y gallent dalu rhent wedi manteisio ar y sefyllfa a pheidio â thalu landlordiaid.

Nid yw'r warchodaeth hon yn dileu'r gofyniad i dalu rhent, ond yn gohirio hawl landlord i gymryd camau fforffedu am beidio â thalu rhent. Bydd tenantiaid yn dal i fod yn atebol am unrhyw ôl-ddyledion, a bydd rhaid iddynt dalu unrhyw rent sy'n ddyledus unwaith y caiff y warchodaeth ei chodi neu wynebu camau fel fforffedu. Ni fydd gweithredoedd y landlord yn ei atal rhag arfer hawl i fforffediad yn y dyfodol, ar ôl i'r moratoriwm ddod i ben, oni bai fod y landlord a'r tenant wedi cytuno fel arall drwy gytundeb gohirio rhent neu gytundeb tebyg mewn perthynas â thalu rhent.

Deellir bod Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn ystyried estyniad tebyg. Byddai'r warchodaeth dros dro yn cael ei hadolygu cyn 30ain Medi 2020 a, bryd hynny, gwneir penderfyniad pa un a oes angen estyniad pellach ai peidio.

Wrth argymell Opsiwn 2, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod sefyllfa landlordiaid, fel buddsoddwyr mewn seilwaith busnes hollbwysig a darparwyr. Bydd darpariaethau Opsiwn 2 yn parhau i roi landlordiaid o dan rywfaint o anfantais wrth negodi trefniadau gohirio rhent er mwyn lliniaru helyntion presennol tenantiaid wrth geisio diogelu eu hasedau. Mae Llywodraeth y DU

[1] https://global.re-leased.com/covid19-insightsuk

wedi cyhoeddi ei bwriad i roi Cod Ymarfer ar gyfer Landlordiaid a Thenantiaid ar waith i annog partïon i gydweithio, i amddiffyn busnesau ac i gyflymu'r adferiad. Mae'r darpariaethau manwl yn cael eu datblygu ac mae swyddogion o'r Gweinyddiaethau Datganoledig, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, yn cyfrannu. Rhagwelir y byddai'r Cod hwn yn helpu i wella'r trafodaethau rhwng Landlordiaid a Thenantiaid o ran cyrraedd atebion synhwyrol, sy'n gynaliadwy yn fasnachol.

Mae Llywodraeth y DU yn parhau i weithio gyda benthycwyr i sicrhau bod cymorth hyblyg yn cael ei ddarparu i landlordiaid masnachol, yn cynnwys gwyliau talu a chyfleusterau ailstrwythuro, ac mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi hyn.

**6. Ymgynghoriad**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r cynigion polisi mewn ymateb uniongyrchol i bandemig a chyfyngiadau'r Coronafeirws.

**7. Asesiad o'r Gystadleuaeth**

Ar ôl cwblhau'r prawf Hidlo Cystadleuaeth, penderfynwyd nad oes unrhyw effeithiau ar gystadleuaeth.

**8. Adolygiad ôl-weithredu**

Mae effaith y Rheoliadau hyn yn gyfyngedig o ran amser a bydd y sefyllfa'n cael ei hadolygu cyn dyddiad terfyn arfaethedig yr estyniad, sef 30ain Medi 2020.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS/MS
Llywydd Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

19 Mehefin 2020

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, paragraff 3, rwy'n eich hysbysu y bydd yr offeryn statudol hwn yn dod i rym lai na 21 diwrnod cyn iddo gael ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol ynghlwm er gwybodaeth ichi.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth i estyn y moratoriwm a gyflwynwyd gan adran 82 o Ddeddf Coronafeirws 2020 ("y Ddeddf"), sy'n gwahardd arfer yr hawl ailfynediad neu fforffediad o dan denantiaeth busnes berthnasol am fethu talu rhent, drwy gymryd camau gorfodi neu fel arall. Yn wreiddiol roedd y Ddeddf yn ymdrin â'r cyfnod a fydd yn dod i ben ar 30 Mehefin 2020. Fodd bynnag, mae'r offeryn statudol yn estyn y warchodaeth am dri mis arall, a fydd yn dod i ben ar 30 Medi 2020.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod y mater hwn â Llywodraeth y DU, mewn perthynas â Chod Ymarfer ar gyfer landlordiaid a thenantiaid sydd â'r nod o hybu gwell cydweithredu rhwng partïon sy'n ymdrin â'r heriau mae COVID-19 yn eu peri i fusnesau, wrth iddo effeithio ar drefniadau tenantiaeth fusnes. Er mwyn rhoi digon o amser i'r partïon perthnasol ystyried y Cod, mae'r Rheoliadau wedi cael eu gosod lai na 21 diwrnod cyn iddynt ddod i rym.

Byddai peidio â dod â'r Rheoliadau i rym o 30 Mehefin yn arwain at fwlch annymunol yn y mesurau diogelu sydd â'r nod o hyrwyddo sefydlogrwydd a chadernid ar adeg sy'n hynod anodd i economi Cymru. Credir bod torri'r confensiwn 21 diwrnod yn angenrheidiol yn yr achos hwn ac y gellir cyfiawnhau gwneud hynny.

Mae'r Memorandwm Esboniadol ynghlwm er gwybodaeth ichi; Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn, ac mae hefyd wedi cael ei

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol. Mae’r ddau yn cael eu gosod gyda’i gilydd, ynghyd â’r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Anfonir copi o’r llythyr hwn at Mick Antoniw MS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

# SL(5)565 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a diben

Gwneir Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 ("y Rheoliadau") o dan adrannau 17 a 47(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005").

Mae Rheoliadau 2015 yn darparu bod yn rhaid i athrawon newydd gymhwyso ("ANG") ymgymryd â chyfnod sefydlu statudol sy'n cynnwys tri thymor ysgol, neu 380 sesiwn, mewn ysgol neu, mewn rhai amgylchiadau, sefydliad arall. Gall ANG gyfrif cyfnodau cyflogaeth a wneir ar sail amser llawn neu ran-amser tuag at y gofyniad hwn. Yn sgil ailbwrpasu ysgolion mewn ymateb i bandemig COVID-19, nid yw rhai ANG sy'n ymgymryd â'u cyfnod sefydlu yn rhan-amser yn gallu bodloni'r gofyniad am 380 sesiwn yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol. Mae hyn yn debygol o effeithio ar flwyddyn academaidd 2020-2021 hefyd.

Gan hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2019 i:

(i) alluogi'r "corff priodol", sef yr awdurdod lleol, i leihau'r cyfnod sefydlu y mae angen i'r unigolyn ei gwblhau i leiafswm o 110 o sesiynau ysgol cyn belled â bod yr unigolyn yn rhoi cydsyniad (bydd yn dal i fod yn ofynnol i'r unigolyn gyflawni'r safonau gofynnol); a

(ii) chaniatáu i sesiynau dysgu proffesiynol gyfrif tuag at gyfnod sefydlu person, ar yr amod bod y sesiynau hynny yn bodloni amodau penodol. Ni chaiff y sesiynau dysgu proffesiynol hynny fod yn fwy nag 16% o hyd cyfan cyfnod sefydlu

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae Rheoliad 7 o'r Rheoliadau yn mewnosod rheoliad 7A newydd yn Rheoliadau 2015. Mae hyn yn nodi y gall sesiwn o ddysgu proffesiynol a wneir gan berson gyfrif tuag at gyfnod sefydlu'r unigolyn hwnnw, ar dri amod. Un o'r amodau yw bod y dysgu'n digwydd rhwng 26 Mawrth 2020 a 31 Awst 2021 ac amod arall yw bod dysgu o'r fath yn cael ei gymeradwyo gan y corff priodol, sef yr awdurdod lleol perthnasol.

Nid yw'n glir o ddrafftio Rheoliad 7A:

(i) Pa safonau y mae'n ofynnol i awdurdod lleol eu cymhwyso er mwyn cymeradwyo sesiynau dysgu proffesiynol. Nid yw'r Rheoliadau'n diffinio ystyr "sesiynau dysgu proffesiynol". Nid ydynt yn manylu ar ffurf neu gynnwys sesiwn ddysgu er mwyn iddo gael ei gymeradwyo, ac nid ydynt yn darparu ar gyfer cyhoeddi unrhyw ganllawiau ar y pwynt hwn. Fel arall, nid yw'r Rheoliadau'n

manylu ynghylch ai disgresiwn llwyr yr awdurdod lleol yw penderfynu ar ffurf neu gynnwys sesiynau er mwyn cael cymeradwyaeth yr awdurdod.

(ii) P'un a yw'n ofynnol i'r awdurdod lleol fod wedi cymeradwyo unrhyw sesiynau dysgu proffesiynol cyn i'r sesiynau gael eu cynnal neu a ellir eu cymeradwyo ar ôl iddynt gael eu cynnal. Os oes rhaid cymeradwyo'r sesiynau cyn eu cynnal, yna mae hyn yn golygu na fydd unrhyw sesiynau a gynhaliwyd ar ôl 26 Mawrth 2020 ond cyn i'r Rheoliadau ddod i rym ar 15 Gorffennaf 2020 yn gallu cyrraedd statws sesiynau dysgu proffesiynol at ddibenion y Rheoliadau. Fel arall, os caniateir i'r awdurdod lleol gymeradwyo sesiynau yn ôl-weithredol lle cawsant eu cynnal ar ôl 26 Mawrth 2020 ond cyn i'r Rheoliadau ddod i rym ar 15 Gorffennaf 2020, dylid cynnwys y pŵer i wneud hynny ar wyneb y Rheoliadau er eglurder .

Nodir bod paragraff 5.2 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi "Bydd canllawiau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi a'u rhannu gyda rhanddeiliaid cyn y daw Rheoliadau 2020 i rym i sicrhau bod y rhai sy'n rhan o'r broses sefydlu yn gallu deall yn glir y newidiadau a wnaed." Nid oes unrhyw sôn a fydd y canllaw hwn yn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn y pwynt craffu technegol hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd tri phwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheoliad 7 yn mewnosod rheoliad newydd 7A yn Rheoliadau 2015. Mae hyn yn caniatáu i sesiynau o ddysgu proffesiynol gyfrif tuag at gwblhau cyfnod sefydlu'r person hwnnw, ar dri amod. Un o'r amodau yw bod yn rhaid i'r sesiynau fod wedi cael eu cynnal yn ystod y cyfnod sy'n cychwyn ar 26 Mawrth 2020 ac yn gorffen ar 31 Awst 2021. Mae'r dyddiad cychwyn ar gyfer y cyfnod hwn yn dyddio cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau i rym ar 15 Gorffennaf 2020. Mae ystyriaeth wedi ei rhoi i weld a yw hyn yn rhoi effaith ôl-weithredol i'r Rheoliadau, yn yr ystyr eu bod yn newid cyfraith y gorffennol. Ystyrir nad yw'r Rheoliadau hyn yn cael effaith ôl-weithredol gan nad ydynt yn newid cyfraith y gorffennol, ond maent yn nodi y bydd unrhyw sesiynau dysgu proffesiynol a gynhaliwyd ers 26 Mawrth 2020, o'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, yn cael eu trin fel sesiynau dysgu proffesiynol at ddibenion y trefniadau sefydlu, fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau yn nodi bod y Rheoliadau'n dod i ben ar 31 Awst 2021. Mae Memorandwm Esboniadol y Rheoliadau yn nodi:

"Credir bod hwn yn ddyddiad terfyn addas oherwydd y dylai ganiatáu digon o amser i'r cohort presennol o athrawon newydd gymhwyso a'r rheini sy'n dechrau ym mis Medi 2020 gwblhau eu cyfnod sefydlu. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu Rheoliadau 2020 ar ôl diwedd un tymor ysgol o flwyddyn academaidd 2020/21 i ystyried a ydynt yn dal i fod yn briodol, ac yna'n parhau i'w hadolygu bob tymor wedi hynny."

Bydd y Rheoliadau yn parhau i gael effaith gyfyngedig ar ôl 31 Awst 2021, gan olygu pan fydd person yn cynnal sesiwn o ddysgu proffesiynol sy'n bodloni amodau Rheoliad 7A newydd o Reoliadau 2015 (fel y'u

mewnosodwyd gan y Rheoliadau hyn), yna gall sesiynau o'r fath gyfrif tuag at cyfnod sefydlu'r unigolyn hwnnw fel pe baent yn sesiynau ysgol ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i ben (ar yr amod mai 18 yw'r nifer uchaf o sesiynau o'r fath). Ni fydd terfyn y Rheoliadau ar 31 Awst 2021 yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir o dan y Rheoliadau cyn y dyddiad hwnnw.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodir na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â'r Rheoliadau. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod hyn oherwydd y brys sydd ei angen i gyflwyno'r newid polisi hwn mewn ymateb i sefyllfa COVID-19. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi ymhellach bod swyddogion wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol ac undebau'r gweithlu wrth ddatblygu'r Rheoliadau.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r ddwy ran o'r pwynt craffu technegol.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**30 Mehefin 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 623 (Cy. 143)

# ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/484 (Cy. 41)) ("Rheoliadau 2015"). Mae Rheoliadau 2015, ynghyd ag adrannau 17 a 19 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"), yn ymdrin â'r gofynion i athrawon ysgol ymgymryd â chyfnod sefydlu.

Mae rheoliadau 3 a 4 yn darparu y bydd rheoliadau 5 i 9 yn parhau i gael effaith ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i ben o dan amgylchiadau cyfyngedig sydd wedi eu rhagnodi. Fel arall, bydd y Rheoliadau hyn yn dod i ben ar 31 Awst 2021, fel y darperir ar ei gyfer yn rheoliad 2.

Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru adolygu effeithiolrwydd y Rheoliadau hyn yn ystod y cyfnod y maent yn cael effaith (rheoliad 2).

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2015 mewn dwy ffordd:

(1) Maent yn caniatáu i'r corff priodol leihau'r cyfnod sefydlu y mae'n ofynnol i'r person ymgymryd ag ef i isafswm o 110 o sesiynau ysgol ar yr amod bod y person yn cydsynio (gweler rheoliad 8). Bydd yn dal yn ofynnol i'r person gyrraedd y safonau a grybwyllir yn adran 18 o Ddeddf 2014.

(2) Mae rheoliad 8(d) yn mewnosod rheoliad newydd 8(6) a 8(7) yn Rheoliadau 2015. Mae'r rheoliadau yma yn caniatáu i sesiynau dysgu proffesiynol gyfrif tuag at gyfnod sefydlu person, ar yr amod bod y sesiynau hynny yn bodloni'r amodau a nodir yn rheoliad newydd 7A (gweler rheoliad 7). Ni chaiff y sesiynau dysgu proffesiynol hynny fod yn fwy nag 16% o hyd cyfan cyfnod sefydlu.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ystyrir bod y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol am ei bod yn bosibl na fydd athrawon newydd gymhwyso wedi gallu mynychu ysgol er mwyn cwblhau eu cyfnod sefydlu yn sgil lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth gangen Addysgeg, Safonau Proffesiynol a Safon Uwch, Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ neu inductioninfo@llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 623 (Cy. 143)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *22 Mehefin 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *23 Mehefin 2020* |
| *Yn dod i rym* | *15 Gorffennaf 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 17 a 47(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014(**1**).

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 15 Gorffennaf 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2015" yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015(**2**).

**Adolygu rheoliadau 5 i 9 a pha bryd y deuant i ben**

**2.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu effeithiolrwydd rheoliadau 5 i 9 yn ystod y cyfnod y maent yn cael effaith.

(2) Yn ddarostyngedig i reoliadau 3 a 4, mae rheoliadau 5 i 9 yn peidio â chael effaith ar 31 Awst 2021.

(**1**) 2014 dccc 5.
(**2**) O.S. 2015/484 (Cy. 41).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Darpariaethau arbed**

**3.** Pan fo person yn ymgymryd â sesiwn dysgu proffesiynol sy'n bodloni amodau rheoliad 7A o Reoliadau 2015 (fel y'i mewnosodir gan reoliad 7) yna caiff sesiynau o'r fath gyfrif tuag at gyfnod sefydlu'r person hwnnw fel pe baent yn sesiynau ysgol ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i ben ar yr amod bod uchafswm o 18 o sesiynau o'r fath.

**4.** Nid yw'r ffaith bod rheoliadau 5 i 9 o dan reoliad 2 wedi dod i ben yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r darpariaethau hyn cyn y dyddiad dod i ben.

**Diwygio Rheoliadau 2015**

**5.** Mae Rheoliadau 2015 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

**6.** Yn rheoliad 3(2)(b) ar ôl "(gan gynnwys, yn unig, gyfnodau o gyflogaeth sy'n cyfrif tuag at gyfnod sefydlu o dan reoliad 9)" mewnosoder "neu reoliad 8(5) (penderfyniad corff priodol pan fo'r safonau wedi eu cyrraedd)".

**7.** Ar ôl rheoliad 7 mewnosoder—

"**Dysgu proffesiynol a gaiff gyfrif tuag at gyfnod sefydlu**

**7A.** Caiff sesiwn dysgu proffesiynol y mae person yn ymgymryd ag ef gyfrif tuag at gyfnod sefydlu'r person hwnnw pan—

(a) ymgymerir â'r sesiwn dysgu proffesiynol rhwng 26 Mawrth 2020 ac 31 Awst 2021,

(b) bo'r sesiwn dysgu proffesiynol yn isafswm o 3 awr (boed yn olynol ai peidio), ac

(c) bo'r sesiwn dysgu proffesiynol wedi ei gymeradwyo gan y corff priodol."

**8.** Yn rheoliad 8—

(a) Ym mharagraff (1), ar ôl "a (4)" mewnosoder "a (5)";

(b) Ar ôl is-baragraff (3)(e) mewnosoder—

"(f) pan fo paragraff (5) yn gymwys.";

(c) Yn is-baragraff (4)(b) yn lle "ym mhob achos arall" rhodder "pan fo paragraff (3)(a), (b), (c) neu (e) yn gymwys";

(d) Ar ôl paragraff (4) mewnosoder—

"(5) Caiff y corff priodol, gyda chydsyniad y person o dan sylw, leihau hyd y cyfnod sefydlu y mae'n ofynnol i'r person ymgymryd ag ef i isafswm o 110 o sesiynau ysgol os yw'r corff

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

priodol wedi ei fodloni bod y person wedi cyrraedd y safonau a grybwyllir yn adran 18 o Ddeddf 2014.

(6) Ym mharagraffau (4) a (5) caiff "sesiwn ysgol" gynnwys sesiwn dysgu proffesiynol sy'n bodloni'r amodau yn rheoliad 7A.

(7) Ni chaiff y sesiynau dysgu proffesiynol a gaiff gyfrif fel sesiynau ysgol fod yn fwy na 16% o hyd cyfan cyfnod sefydlu."

**9.** Yn rheoliad 13 (cwblhau cyfnod sefydlu) —

(a) Ar ôl is-baragraff (1)(b) mewnosoder—

"(c) os yw'r person hwnnw wedi ymgymryd â sesiwn dysgu proffesiynol y cyfeirir ati yn rheoliad 7A pan gwblheir y cyfnod sefydlu."

*Kirsty Williams*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
22 Mehefin 2020

**Memorandwm Esboniadol Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Kirsty Williams AS
**Y Gweinidog Addysg**
23 Mehefin 2020

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 (“Rheoliadau 2020”) yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/484 (Cy.141)) (“Rheoliadau 2015”). Mae Rheoliadau 2015, ynghyd ag adrannau 17 ac 19 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (“Deddf 2014”), yn ymdrin â’r gofynion i athrawon ysgol ymgymryd â chyfnod sefydlu.

1.2 Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliadau 2015 mewn dwy ffordd:

(i) Maent yn galluogi’r corff priodol i leihau’r cyfnod sefydlu y mae angen i’r unigolyn ei gwblhau i leiafswm o 110 o sesiynau ysgol cyn belled â bod yr unigolyn yn rhoi cydsyniad (gweler rheoliad 8). Bydd yn dal i fod yn ofynnol i’r unigolyn gyflawni’r safonau a nodwyd yn adran 18 o Ddeddf 2014.

(ii) Mae rheoliad 8(d) yn mewnosod rheoliad newydd 8(6) a 8(7) yn Rheoliadau 2015. Mae’r rheoliadau yma yn caniatáu i sesiynau dysgu proffesiynol gyfrif tuag at gyfnod sefydlu person, ar yr amod bod y sesiynau hynny yn bodloni’r amodau a nodir yn rheoliad newydd 7A (gweler rheoliad 7). Ni chaiff y sesiynau dysgu proffesiynol hynny fod yn fwy nag 16% o hyd cyfan cyfnod sefydlu.

1.3 Yn ogystal, mae Rheoliadau 3 a 4 yn darparu y bydd Rheoliadau 5 i 9 yn parhau i fod mewn grym wedi i Reoliadau 2020 ddod i ben mewn amgylchiadau penodol, cyfyngedig. Fel arall, fel y darperir yn rheoliad 2, daw Rheoliadau 2020 i ben ar 31 Awst 2021.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Gwneir y Rheoliadau hyn mewn ymateb i addasu ysgolion yng Nghymru yn sgil sefyllfa COVID-19 ac maent yn darparu y caiff rhai sesiynau dysgu proffesiynol a gynhelir cyn i’r Rheoliadau hyn ddod i rym gyfrif tuag at gyfnod sefydlu, er na fyddent yn cyfrif fel arfer yn absenoldeb y Rheoliadau hyn.

2.2 Credir bod y rheoliadau hyn yn angenrheidiol gan efallai na fydd athrawon newydd gymhwyso wedi gallu mynd i ysgol er mwyn cwblhau eu cyfnod sefydlu oherwydd lledaeniad COVID-19 yng Nghymru.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adrannau 17 a 47(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014.

3.2 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mewn ymateb i bandemig COVID-19, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai pob ysgol yn cau ar 20 Mawrth ac yn cael eu haddasu i weithredu fel hybiau ar gyfer plant gweithwyr allweddol o 23 Mawrth. Mae addysgu a dysgu wedi parhau i ddysgwyr o bell.

4.2 Diben y newidiadau yw sicrhau nad yw athro newydd gymhwyso sy'n ymgymryd â chyfnod sefydlu o dan anfantais o ganlyniad i sefyllfa COVID-19.

4.3 O dan Reoliadau 2015, mae angen i athrawon newydd gymhwyso ymgymryd â chyfnod sefydlu statudol, sy'n cynnwys tri thymor ysgol neu 380 o sesiynau mewn ysgol neu, mewn amgylchiadau penodol, mewn sefydliad arall. Cânt gyfrif cyfnodau o gyflogaeth amser llawn neu ran amser tuag at eu cyfnod sefydlu, a chofnodi pob cyfnod o gyflogaeth gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (EWC) gan ddefnyddio'r ffurflenni priodol.

4.4 Mae'r achosion o COVID-19 a'r angen i addasu ysgolion yn sgil hynny wedi golygu nad yw rhai athrawon newydd gymhwyso (h.y. y rhai hynny sy'n ymgymryd â chyfnod sefydlu rhan amser) yn gallu bodloni'r gofynion i gwblhau tri thymor neu 380 o sesiynau yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Mae hefyd yn debygol y bydd sefyllfa COVID-19 yn parhau i darfu ar flwyddyn academaidd 2020/21, felly bydd Rheoliadau 2020 yn parhau i fod mewn grym ar gyfer athrawon newydd gymhwyso sy'n ymgymryd â chyfnod sefydlu yn ystod y cyfnod hwnnw.

4.5 Awdurdodau lleol yw'r cyrff priodol yn y broses sefydlu. Y corff priodol sydd â'r cyfrifoldeb statudol cyffredinol ar gyfer goruchwylio a hyfforddi pob athro newydd gymhwyso yn ei ardal ac am wneud y penderfyniad terfynol ar ddiwedd y cyfnod sefydlu (pasio / methu / angen estyniad).

4.6 Mae Rheoliadau 2020 yn rhoi disgresiwn i'r corff priodol leihau'r cyfnod sefydlu y mae angen i'r athro newydd gymhwyso ei gwblhau, i leiafswm o 110 o sesiynau ysgol cyn belled â bod yr unigolyn yn cydsynio i'r lleihad a'i fod yn bodloni'r safonau a nodwyd yn adran 18 o Ddeddf 2014.

4.7 Bydd Rheoliadau 2020 hefyd yn caniatáu i uchafswm o 16% o'r cyfanswm nifer o sesiynau y bydd athrawon newydd gymhwyso yn eu cyflawni er mwyn cwblhau'r cyfnod sefydlu, i fod yn sesiynau dysgu proffesiynol. Mae'n rhaid i'r sesiynau dysgu proffesiynol fod:

- wedi'u cynnal rhwng 26 Mawrth 2020 a 31 Awst 2021;
- yn o leiaf 3 awr o hyd (yn olynol neu beidio) i gyfrif fel sesiwn;
- wedi'u cymeradwyo gan y corff priodol.

Effaith y newid hwn yw galluogi athrawon newydd gymhwyso i gyfrif yr amser y byddant yn ei dreulio ar ddysgu proffesiynol tuag at eu cyfnod sefydlu. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu pwysigrwydd dysgu proffesiynol gydol gyrfa sy'n bwysicach fyth ar hyn o bryd, pan mae'r cyfleoedd i

athrawon newydd gymhwyso gwblhau eu cyfnod sefydlu wedi'u heffeithio gan COVID-19 ac y gall fod angen i athrawon ddatblygu eu sgiliau i ddysgu o bell neu drwy ddulliau cyfunol. Bydd angen i'r cyrff priodol, fel rhan o'u gwaith o gymeradwyo dysgu proffesiynol, sicrhau bod cydbwysedd rhwng dysgu proffesiynol ac ymarfer. Efallai na fydd athro newydd gymhwyso sydd wedi ymgymryd â llawer iawn o ddysgu proffesiynol o'i gymharu ag ymarfer dysgu wedi cael digon o brofiad ymarferol i fedru bodloni'r safonau proffesiynol a chwblhau'r cyfnod sefydlu.

4.8 Bydd effaith y newidiadau hyn yn galluogi athrawon newydd gymhwyso sy'n dangos eu bod yn bodloni'r safonau proffesiynol, i gwblhau cyfnod sefydlu llwyddiannus os nad yw'n bosibl iddynt fodloni'r gofyniad tri thymor / 380 o sesiynau. Bydd hyn yn caniatáu mwy o hyblygrwydd yn ystod cyfnod o darfu na welwyd ei debyg ac yn galluogi'r athrawon newydd gymhwyso i gwblhau'r broses sefydlu o fewn blwyddyn academaidd, neu gyfwerth.

4.9 Y risg os na wneir y newidiadau hyn yw na fydd cohort 2019/20 o athrawon newydd gymhwyso yn gallu symud ymlaen i gyfnod nesaf eu gyrfa, er gwaethaf y ffaith eu bod yn bodloni'r safonau proffesiynol. Gallai hyn arwain at oblygiadau ar gyfer eu cyflog ac unrhyw gyflogaeth a gynigir yn y dyfodol ar y sail eu bod wedi cwblhau eu cyfnod sefydlu. Bydd peidio â gwneud y newid hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynyddu'r cyllid i gefnogi dau gohort o athrawon newydd gymhwyso (2019/20 a 2020/21) o fis Medi.

4.10 Mae Rheoliadau 2020 yn gyfyngedig o ran amser a byddant yn dod i ben ar 31 Awst 2021. Credir bod hwn yn ddyddiad terfyn addas oherwydd y dylai ganiatáu digon o amser i'r cohort presennol o athrawon newydd gymhwyso a'r rheini sy'n dechrau ym mis Medi 2020 gwblhau eu cyfnod sefydlu. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu Rheoliadau 2020 ar ôl diwedd un tymor ysgol o flwyddyn academaidd 2020/21 i ystyried a ydynt yn dal i fod yn briodol, ac yna'n parhau i'w hadolygu bob tymor wedi hynny.

4.11 Bydd gofynion eraill yn ymwneud â chyfnod sefydlu athrawon newydd gymhwyso yn parhau i fod yn berthnasol, fel y nodwyd yn Rheoliadau 2015 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau 2020) a Chanllawiau Sefydlu Llywodraeth Cymru (2015).

## 5. Ymgynghori

5.1 Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol oherwydd yr angen i gyflwyno'r newid polisi hwn ar fyrder mewn ymateb uniongyrchol i sefyllfa COVID-19. Ond mae swyddogion wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Arweinwyr Sefydlu Consortia Rhanbarthol, cynrychiolwyr o'r cyrff priodol a Chyngor y Gweithlu Addysg wrth ddatblygu'r Rheoliadau. Rydym hefyd wedi cysylltu ag undebau'r gweithlu.

Mae rhanddeiliaid wedi croesawu’r newidiadau fel ateb pragmatig mewn amgylchiadau eithriadol.

5.2 Bydd canllawiau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi a’u rhannu gyda rhanddeiliaid cyn y daw Rheoliadau 2020 i rym i sicrhau bod y rhai sy’n rhan o’r broses sefydlu yn gallu deall yn glir y newidiadau a wnaed.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 6. Opsiynau

Mae dau opsiwn wedi'u hystyried:

> Opsiwn 1: Gwneud dim, cadw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015 fel y maent mewn grym ar hyn o bryd.
>
> Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015.

**Opsiwn 1: Gwneud dim, cadw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015 fel y maent mewn grym ar hyn o bryd.**

Mae angen y newidiadau i sicrhau nad yw athrawon newydd gymhwyso sy'n mynd drwy'r broses sefydlu o dan anfantais yn sgil pandemig presennol COVID-19.

Byddai peidio â gwneud y diwygiadau sydd yn Rheoliadau 2020 yn cael effaith ar gyflogaeth rhai athrawon yn y dyfodol yr oedd disgwyl iddynt gwblhau'r broses sefydlu yr haf hwn. Byddai hefyd yn arwain at fwy o gostau ac adnoddau i'w cefnogi o fis Medi 2020 ymlaen. Yn ogystal, byddai'n effeithio ar rai sy'n ennill statws athro cymwysedig yr haf hwn ac sydd am ddechrau'r broses sefydlu ym mis Medi. Gallai'r swyddi y byddai disgwyl iddynt ymgeisio amdanynt barhau i gael eu llenwi gan athrawon newydd gymhwyso nad oedd yn gallu cwblhau'r broses sefydlu yr haf hwn. Hefyd, gallai fod effaith ariannol ar y rhai nad oedd yn gallu cwblhau'r broses sefydlu gan ei bod yn bosibl na fyddant yn symud i gam nesaf y raddfa gyflog yn unol â Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD).

**Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015.**

Mae diwygio Rheoliadau 2015 yn y ffordd a ddisgrifir yn Rhan 1 yn cyd-fynd â'r amcan polisi i sicrhau nad yw athrawon newydd gymhwyso o dan anfantais yn sgil pandemig COVID-19.

Effaith y newidiadau hyn fydd galluogi athrawon newydd gymhwyso, sy'n dangos eu bod yn bodloni'r safonau proffesiynol, i gwblhau'r broses sefydlu yn llwyddiannus heb yr angen i ateb y gofyniad tri thymor / 380 o sesiynau. Bydd gan Gyrff Priodol fwy o hyblygrwydd i'w galluogi i fod yn fwy pragmatig yn ystod cyfnod o darfu na welwyd ei debyg. Mae'r newidiadau hefyd yn caniatáu i sesiynau o ddysgu proffesiynol gyfrif tuag at gwblhau'r cyfnod sefydlu.

## 7. Costau a manteision

**Opsiwn 1: Gwneud dim, cadw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015 fel y maent mewn grym ar hyn o bryd.**

O dan y trefniadau presennol, mae Cyngor y Gweithlu Addysg yn gyfrifol am weinyddu cyllid sefydlu ar ran Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cyllid ar gyfer ysgolion i'w galluogi i ryddhau athrawon newydd gymhwyso o 10% o'u hamserlen addysgu a chyllid ar gyfer yr oruchwyliaeth a'r hyfforddiant a ddarperir gan fentoriaid a gwirwyr allanol. Mae Cyngor y Gweithlu Addysg hefyd yn derbyn cyllid i weinyddu'r rhaglen sefydlu ar ran Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys:

- casglu a chynnal ffynhonnell ganolog o ddata am athrawon, gan gynnwys eu statws a'u cynnydd mewn perthynas â sefydlu, h.y. heb ddechrau / wedi dechrau / pasio / methu / angen estyniad;
- rhoi tystysgrifau sefydlu, a
- chlywed apeliadau sefydlu.

Cyfanswm blynyddol y cyllid sy'n cael ei ddyrannu i Gyngor y Gweithlu Addysg at y dibenion hyn yw £3,935,000.

Gallai'r opsiwn hwn arwain at gostau uwch i Lywodraeth Cymru ym mlynyddoedd ariannol 2020-21 a 2021-22 pe bai'n ofynnol i athrawon newydd gymhwyso, a ddechreuodd y broses sefydlu yn ystod blwyddyn academaidd 2019/20, barhau ym mlwyddyn academaidd 2020/21. Y rheswm dros y costau uwch yw y byddai angen i Lywodraeth Cymru gefnogi dau gohort o athrawon newydd gymhwyso am gyfnod.

Gallai'r opsiwn hwn arwain at rai arbedion i ysgolion / awdurdodau lleol o ran cyflogau. Mae STPCD yn nodi bod rhaid i'r corff perthnasol benderfynu ar gynnydd mewn cyflogau yn flynyddol ac, yn achos athrawon newydd gymhwyso, ddefnyddio tystiolaeth o'r broses sefydlu. Felly, os nad yw athrawon newydd gymhwyso yn pasio'r broses sefydlu, gallai'r corff perthnasol benderfynu peidio â chynyddu eu cyflog o fis Medi 2020 ymlaen. Mae'n anodd cyfrifo'r union arbedion gan y byddai'n dibynnu ar bob achos unigol, a gallai rhai ysgolion / awdurdodau lleol ddewis cynnig y cynnydd mewn cyflog ni waeth a basiodd yr athro newydd gymhwyso y broses sefydlu ai peidio.

Nid yw'r opsiwn hwn yn cyflawni'r un o'r manteision polisi a nodwyd mewn perthynas â diwygio Rheoliadau 2015.

**Opsiwn 2: Diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015.**

Gallai'r opsiwn hwn arwain at rai arbedion o ganlyniad i alluogi athrawon newydd gymhwyso i gwblhau'r broses sefydlu mewn llai o amser.

Er enghraifft, ar hyn o bryd, mae ysgol yn derbyn tua £700 y tymor i ariannu'r 10% o amser y mae athrawon newydd gymhwyso wedi'u rhyddhau o'u

hamserlen addysgu. Pe bai athro newydd gymhwyso yn cwblhau ei broses sefydlu mewn llai na 3 thymor ysgol, byddai'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu i'r ysgol yn gostwng yn unol â hynny. Gallai'r gofyniad i fentoriaid neu wirwyr allanol gefnogi athrawon newydd gymhwyso leihau hefyd gan arwain at arbedion pellach. Serch hynny, er y byddai Rheoliadau 2020 yn caniatáu cyfnod sefydlu llai, bydd Llywodraeth Cymru yn cynghori cyrff priodol y dylai athrawon newydd gymhwyso gymryd 2-3 thymor / 220-380 o sesiynau i gwblhau eu proses sefydlu ac felly byddai'r arbedion mewn costau yn amrywio yn ôl amgylchiadau unigol athrawon newydd gymhwyso.

Bydd mân gostau gweinyddol er mwyn i Lywodraeth Cymru lunio'r canllawiau y cyfeirir atynt i helpu i weithredu Rheoliadau 2020. Mae'r opsiwn hwn yn cyflawni'r manteision polisi a nodir fel y'u hamlinellir yn Rhan 1. Ni fydd athrawon newydd gymhwyso ond yn pasio'r broses sefydlu os oes tystiolaeth eu bod yn bodloni'r safonau proffesiynol, felly ni ddylai fod effaith niweidiol ar ddysgwyr.

## 8. Ymgynghori

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol oherwydd yr angen i gyflwyno'r newid polisi hwn ar fyrder mewn ymateb uniongyrchol i gyfyngiadau COVID-19.

## 9. Asesu'r gystadleuaeth

Ar ôl cwblhau'r prawf Hidlo'r Gystadleuaeth, canfuwyd na fydd yna effeithiau ar gystadleuaeth.

## 10. Adolygu ar ôl gweithredu

Fel arfer, argymhellir adolygu deddfwriaeth dair blynedd ar ôl ei gweithredu. Mae terfyn amser anochel i effaith y Rheoliadau hyn oherwydd pandemig COVID-19. Serch hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu Rheoliadau 2020 ar ôl diwedd un tymor ysgol ym mlwyddyn academaidd 2020/21 i ystyried a ydynt yn dal i fod yn briodol a bydd yn parhau i'w hadolygu bob tymor wedi hynny.

# SL(5)566 - Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn a wnaed o dan Ddeddf Addysg 2002 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 (OS 2014/1249) ('Rheoliadau 2014'). Mae Rheoliadau 2014 yn darparu bod yn rhaid i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am y dyddiadau ysgol y penderfynwyd arnynt o leiaf ddwy flynedd ymlaen llaw (h.y. erbyn y diwrnod gwaith olaf ym mis Awst ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol dan sylw).

Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2014 ac yn benodol, y dyddiad yn rheoliad 4 ar gyfer y flwyddyn ysgol 2022/23 fel bod yn rhaid i awdurdodau lleol anfon hysbysiad at Weinidogion Cymru am ddyddiadau eu tymhorau arfaethedig erbyn 31 Rhagfyr 2020 yn lle'r diwrnod gwaith olaf ym mis Awst 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn

**1) Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r sylwadau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch hawliau plant - *"Rydym wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Ni nodwyd gwrthdaro â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac nid oes effaith negyddol ar blant na phobl ifanc. Diben Rheoliadau Dyddiadau Tymhorau 2020 yw sicrhau y gall rhieni, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill flaengynllunio ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 heb faich diangen ar awdurdodau lleol yn ystod argyfwng y coronafeirws (COVID-19)".*

## Y goblygiadau yn sgîl gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**25 Mehefin 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 622 (Cy. 142)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 32A o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol benderfynu ar ddyddiadau tymhorau ar gyfer pob ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir yn ei ardal. Wrth wneud hynny, rhaid i awdurdodau lleol gydweithredu a chydgysylltu â'i gilydd ac â chyrff llywodraethu perthnasol yn eu hardal i sicrhau bod dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer ysgolion a gynhelir yr un fath (neu mor debyg ag y gallant fod).

Mae Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/1249 (Cy. 130)) ("Rheoliadau 2014") yn darparu bod rhaid i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am y dyddiadau ysgol y penderfynwyd arnynt o leiaf ddwy flynedd ymlaen llaw (h.y. erbyn y diwrnod gwaith olaf ym mis Awst ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol o dan sylw).

Mae'r Rheoliadau hyn, sydd wedi eu gwneud o dan adran 32A a 210 o Ddeddf Addysg 2002, yn diwygio Rheoliadau 2014 fel bod rhaid i'r hysbysiad ar gyfer y flwyddyn ysgol 2022-23 gael ei anfon at Weinidogion Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2020. Mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn debygol o fod o dan fwy o bwysau dros yr haf oherwydd lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru. Mae'r gofyniad i hysbysu Gweinidogion Cymru am ddyddiadau tymor erbyn 31 Awst 2020 yn debygol o osod baich gweinyddol anghymesur ar awdurdodau lleol. Bydd estyn y dyddiad cau ar gyfer yr hysbysiad i 31 Rhagfyr 2020 yn lleihau'r baich gan sicrhau y gall gofynion statudol eraill sy'n ymwneud â

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

chydgysylltu dyddiadau tymhorau ysgol gael eu bodloni.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 622 (Cy. 142)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Mehefin 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *23 Mehefin 2020* |
| *Yn dod i rym* | *16 Gorffennaf 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 32A a 210 o Ddeddf Addysg 2002(**1**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 a deuant i rym ar 16 Gorffennaf 2020.

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014**

**2.** Mae rheoliad 4 o Reoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014(**2**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) daw'r ddarpariaeth bresennol yn baragraff (1);

(b) ar ddechrau paragraff (1) mewnosoder "Yn ddarostyngedig i baragraff (2),";

(**1**) 2002 p. 32. Mewnosodwyd adran 32A gan adran 42 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (dccc 5). Diwygiwyd adran 210(7) gan adran 21(3)(c)(i) a (ii) o Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 (mccc 2). Trosglwyddwyd swyddogaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 210 i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**2**) O.S. 2014/1249 (Cy. 130).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—

"(2) Ar gyfer y flwyddyn ysgol 2022-2023, rhaid i awdurdod lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am yr holl ddyddiadau tymhorau y penderfynwyd arnynt ar gyfer yr ysgolion a gynhelir yn ei ardal ar gyfer y flwyddyn ysgol honno heb fod yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2020. "

*Kirsty Williams*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
19 Mehefin 2020

# Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020.

Kirsty Williams
Y Gweinidog Addysg
23 Mehefin 2020

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 yn diwygio Rheoliadau Addysg (Hysbysu am Ddyddiadau Tymhorau Ysgol) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014").

1.2 Yr hyn sy'n cael ei ddiwygio yw'r dyddiad cau erbyn pryd y mae rhaid i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am eu dyddiadau tymhorau arfaethedig ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23. Mae'r dyddiad cau wedi'i newid o'r diwrnod gwaith olaf ym mis Awst 2020 i 31 Rhagfyr 2020.

1.3 Gwneir y newid hwn i ganiatáu mwy o amser i awdurdodau lleol weithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol eraill i gysoni eu dyddiadau tymhorau ysgol ar gyfer 2022/23 yn ystod argyfwng y coronafeirws (COVID-19). Mae'r pandemig yn golygu nad yw ysgolion yn gweithredu'n llawn ac mae awdurdodau lleol o dan bwysau sylweddol ar hyn o bryd. O ganlyniad, byddai cydymffurfio â'r gofyniad hwn yn gosod baich gweinyddol anghymesur arnynt ar adeg pan fônt eisoes yn eithriadol o brysur.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan bwerau yn adrannau 32A a 210 o Ddeddf Addysg 2002. Maent yn dilyn y weithdrefn penderfyniad negyddol.

3.2 O dan adran 32A(1) o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002"), rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru benderfynu ar y dyddiadau tymhorau ar gyfer pob ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol a reolir, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir yn ei ardal. Rhaid i gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir yng Nghymru ("corff llywodraethu perthnasol") benderfynu ar ddyddiadau tymhorau ei ysgol. Wrth arfer ei swyddogaethau o dan adran 32A(1), rhaid i awdurdod lleol gydweithredu a chydgysylltu â phob corff llywodraethu perthnasol yn ei ardal, a phob awdurdod lleol arall yng Nghymru, i sicrhau bod y dyddiadau tymhorau ysgol y penderfynwyd arnynt ar gyfer pob ysgol a gynhelir yng Nghymru yr un fath (neu mor debyg ag y gallant fod).

3.3 O dan adran 32B o Ddeddf 2002 caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol yng Nghymru neu gorff llywodraethu perthnasol i benderfynu ar ddyddiadau tymhorau o'r fath ar gyfer ysgol a gynhelir yng Nghymru, fel y nodir yn y cyfarwyddyd. Cyn gwneud cyfarwyddyd o'r fath rhaid i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad fel y gwelant yn briodol.

3.4 Mae rheoliad 4 o Reoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am yr holl ddyddiadau tymhorau y penderfynwyd arnynt ar gyfer yr ysgolion a gynhelir yn ei ardal heb fod yn

hwyrach na’r diwrnod gwaith olaf ym mis Awst yn y flwyddyn sydd union ddwy flynedd cyn dechrau’r flwyddyn ysgol y penderfynwyd ar y dyddiadau tymhorau ar ei chyfer. Er mwyn cydymffurfio â’r gofyniad hwn bydd angen i awdurdodau lleol gydlynu â’u holl ysgolion a gynhelir yn ogystal ag awdurdodau lleol eraill yn ystod yr haf.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a’r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2014 er mwyn diwygio’r dyddiad yn rheoliad 4 ar gyfer blwyddyn ysgol 2022/23 fel y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol hysbysu Gweinidogion Cymru am eu dyddiadau tymhorau arfaethedig erbyn 31 Rhagfyr 2020 yn hytrach na’r diwrnod gwaith olaf ym mis Awst 2020.

4.2 Nid yw hyn yn effeithio ar y gofynion eraill ynghylch hysbysu am ddyddiadau tymhorau ysgol ac maent yn parhau fel y’u nodwyd yn Rheoliadau 2014.

4.3 Mae Asesiad Effaith Integredig wedi’i gynnal wrth wneud Rheoliadau Dyddiadau Tymhorau 2020. Bydd yr Asesiad Effaith a’r Rheoliadau yn cael eu hadolygu’n gyson tra maent mewn grym.

**5. Ymgynghori**

5.1 Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ar y Rheoliadau hyn. Serch hynny, yn ystod y cyfnod yn arwain at osod y Rheoliadau hyn, rydym wedi ymgysylltu ag awdurdodau lleol yng Nghymru ac awdurdodau esgobaethol. Mae’r adborth wedi bod yn gadarnhaol ac mae estyn y dyddiad cau ar gyfer cwblhau’r ymarfer cysoni dyddiadau tymhorau wedi’i groesawu.

5.2 Gwnaed datganiad ar gyfer partïon â buddiant ar 7 Mai 2020 yn nodi’r cynnig. Bwriad y datganiad oedd cynorthwyo awdurdodau lleol i gynllunio eu gwaith sydd â blaenoriaeth yn ystod yr haf.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

6.1 Nid oes costau nac arbedion o ganlyniad i’r diwygiad hwn, felly nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi’i gynnal. Ni ragwelir effaith ar fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol ac nid yw Rheoliadau Dyddiadau Tymhorau 2020 ond yn cael effaith ar gyfer ymarfer dyddiadau tymhorau 2022/23 y mae rhaid ei gwblhau yn 2020.

6.2 Mae’r effaith yn y sector cyhoeddus ar y sector ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion i’r graddau y mae’r cyrff hyn yn gyfrifol am osod dyddiadau tymhorau ysgol a chytuno arnynt. O ganlyniad i’r rheoliadau diwygio hyn, bydd gan awdurdodau lleol fwy o hyblygrwydd o ran sut y gallant ymateb a defnyddio eu hadnoddau yn ystod argyfwng y coronafeirws (COVID-19). Mae’r sector yn croesawu’r estyniad i’r dyddiad cau.

**Y Gymraeg**

6.3 Nid oes goblygiadau o ran effaith gadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg.

**Hawliau Plant**

6.4 Rydym wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Ni nodwyd gwrthdaro â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac nid oes effaith negyddol ar blant na phobl ifanc. Diben Rheoliadau Dyddiadau Tymhorau 2020 yw sicrhau y gall rhieni, dysgwyr a rhanddeiliaid eraill flaengynllunio ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 heb faich diangen ar awdurdodau lleol yn ystod argyfwng y coronafeirws (COVID-19).

**Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

6.5 Nid yw estyn y dyddiad cau i 31 Rhagfyr 2020 yn effeithio ar y darpariaethau yn Neddf Cydraddoldeb 2010 na Deddf Hawliau Dynol 1998.

6.6 Mae Asesiad Effaith Integredig wedi'i gynnal fel rhan o'r broses o ddatblygu'r ddeddfwriaeth.

**Preifatrwydd**

6.7 Nid yw estyn y dyddiad cau i 31 Rhagfyr 2020 yn effeithio ar y darpariaethau yn Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016.

**Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder**

6.8 Er nad oes Asesiad ffurfiol o'r Effaith ar Gyfiawnder wedi'i gynnal, ni nodwyd effaith wrth ystyried y Rheoliadau hyn.

# SL(5)563 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) ("y prif reoliadau"), a daethant i rym am 12.01am ar 22 Mehefin 2020. Mae'r rheoliadau hyn yn llacio ar gyfyngiadau penodol a roddwyd ar waith gan y prif reoliadau.

Diben y prif Reoliadau, y mae'r Rheoliadau hyn yn eu diwygio, yw:

- rhoi cyfyngiadau ar symudiadau unigolion, gan nodi amgylchiadau pan ganiateir iddynt adael y man lle y maent yn byw ac atal grwpiau o fwy na dau o bobl rhag ymgynnull, ac eithrio mewn amgylchiadau penodol;
- ei gwneud yn ofynnol cau busnesau penodol a gosod gofynion ar fusnesau eraill, yn ogystal â dyletswyddau i gau llwybrau troed cyhoeddus penodol a thir, er mwyn diogelu rhag y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws.

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn:

- yn caniatáu i fangreoedd penodol fod ar agor er mwyn i athletwyr elît hyfforddi ac sy'n darparu ei bod yn esgus rhesymol i athletwr elît fod i ffwrdd o'i ardal leol, neu ymgynnull gyda phersonau eraill at ddibenion hyfforddi neu gystadlu;
- yn caniatáu i siopau bu'n gorfod bod ar gau (a mangreoedd tebyg gan gynnwys delwriaethau ceir a marchnadoedd awyr agored) i agor. Bydd y siopau hyn yn ddarostyngedig i ofynion sy'n ymwneud â phellter corfforol (hynny yw, cymryd pob mesur rhesymol i sicrhau bod unigolion yn yr adeilad yn cadw pellter o 2 fetr rhwng ei gilydd, bod y bobl sy'n aros i fynd i mewn i'r adeilad yn cadw pellter o 2 fetr a bod cyfyngiad ar nifer y bobl yn yr adeilad er mwyn caniatáu cadw at bellter o 2 fetr). Bydd angen i gwsmeriaid barhau i gadw at y gofynion 'aros yn lleol'.
- mewn mannau addoli, seremonïau priodas a phartneriaethau sifil, yn ddarostyngedig i ofynion cadw pellter corfforol; Caiff pobl adael eu hardal leol i fynd i briodas neu bartneriaeth sifil, a chânt ymgynnull gydag eraill at y diben hwnnw, er bod yn rhaid iddynt ddilyn y trefniadau o ran pellter corfforol sydd ar waith. Caiff addoldai hefyd agor ar gyfer gweddïo preifat.
- yn caniatáu i fan addoli neu ganolfan gymunedol agor (ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol) er mwyn darparu unrhyw wasanaeth cyhoeddus Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi enghraifft o agor canolfan gymunedol i ddarparu cyfleusterau gofal plant.
- ehangu'r rhestr o esgusodion rhesymol i gynnwys

  (a) er mwyn pleidleisio mewn etholiad pan na fo'n rhesymol ymarferol pleidleisio ac eithrio'n bersonol (mae hyn yn cynnwys etholiadau mewn gwledydd eraill lle bo'r rheini sydd â hawl i bleidleisio ond sy'n byw yng Nghymru angen teithio i lysgenhadaeth yn Llundain er mwyn pleidleisio);

(b) symud tŷ;

(c) paratoi eiddo i rywun symud i mewn;

(d) ymweld ag asiant eiddo neu asiant gosod eiddo, swyddfa werthiant datblygwr neu gartref arddangos mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu neu rentu eiddo nad yw wedi ei feddiannu. Mae hyn yn golygu felly mai dim ond eiddo gwag y gellir ei farchnata ar hyn o bryd;

(e) gweld eiddo nad yw wedi ei feddiannu gyda golwg ar brynu neu rentu'r eiddo hwnnw.

Bydd y mesurau hyn yn caniatáu symud cartref lle bo eiddo yn wag neu heb denant, a chytunwyd ar gwblhau gwerthiannau sydd wedi'u cytuno eisoes ond sydd, hyd yma, wedi'u gohirio oherwydd argyfwng y coronafeirws.

Mae'r Rheoliadau diwygio hefyd yn gwneud darpariaethau canlyniadol ac arbedol angenrheidiol.

Daw'r prif Reoliadau (a'r diwygiadau hyn) i ben ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis gan ddechrau gyda'r diwrnod y deuant i rym – daethant i rym ar 26 Mawrth 2020 ac felly byddant yn dod i ben ar 26 Medi 2020.

## Gweithdrefn

Gwneud Cadarnhaol: mae'r Rheoliadau eisoes wedi eu gwneud, ond mae angen i'r Senedd eu cymeradwyo er mwyn iddynt barhau mewn grym am fwy nag 28 diwrnod.

## Materion technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.**

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod, er bod y rheoliadau hyn yn llacio ar y cyfyngiadau mewn rhai meysydd o fywyd cyhoeddus, nid ydynt yn newid hawliau unigol o dan y Prif Reoliadau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu defnyddio gan y prif Reoliadau.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Mae'r Pwyllgor yn nodi dadansoddiad y Llywodraeth ar y defnydd a wneir o'r hawliau dynol yn y Memorandwm Esboniadol sydd, ymhlith materion eraill, yn nodi bod "llacio pellach ar y cyfyngiadau a wneir gan y Rheoliadau diwygio hyn yn ymateb cymesur sy'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau er y bydd gwneud hynny'n ddarostyngedig i gyfyngiadau, mewn modd

sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol".

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**29 Mehefin 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 619 (Cy. 141)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020.

Mae'r diwygiadau yn cynnwys darpariaeth—

(a) sy'n caniatáu i fangreoedd penodol fod ar agor er mwyn i athletwyr elît hyfforddi ac sy'n darparu ei bod yn esgus rhesymol i athletwr elît fod i ffwrdd o'i ardal leol, neu ymgynnull gyda phersonau eraill at ddibenion hyfforddi neu gystadlu;

(b) sy'n caniatáu i siopau bu'n gorfod bod ar gau (a mangreoedd tebyg gan gynnwys

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

delwriaethau ceir a marchnadoedd awyr agored) i agor, ond nodir fod rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion cadw pellter corfforol a rhaid i'w cwsmeriaid aros yn yr ardal sy'n lleol i'r man lle y maent yn byw;

(c) sy'n codi cyfyngiadau ar gynnal seremonïau priodas a phartneriaethau sifil, yn ddarostyngedig i ofynion cadw pellter corfforol;

(d) sy'n caniatáu i fannau addoli agor ar gyfer gweddïo preifat;

(e) sy'n ei gwneud yn glir y caiff man addoli neu ganolfan gymunedol agor (ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol) er mwyn darparu unrhyw wasanaeth cyhoeddus;

(f) sy'n datgan ei bod yn esgus rhesymol gadael eich ardal leol neu fod o dan do gyda phersonau eraill er mwyn pleidleisio mewn etholiad pan na fo'n rhesymol ymarferol pleidleisio ac eithrio'n bersonol;

(g) sy'n datgan ei bod yn esgus rhesymol gadael eich ardal leol neu ymgynnull o dan do gyda phersonau eraill er mwyn—

  (i) symud tŷ;

  (ii) paratoi eiddo i rywun symud i mewn;

  (iii) ymweld ag asiant eiddo neu asiant gosod eiddo, swyddfa werthiant datblygwr neu gartref arddangos mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu neu rentu eiddo nad yw wedi ei feddiannu;

  (iv) gweld eiddo nad yw wedi ei feddiannu.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 619 (Cy. 141)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *19 Mehefin 2020* |
| *Yn dod i rym* | *am 12.01 a.m. ar 22 Mehefin 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *am 11.00 a.m. ar 22 Mehefin 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 a deuant i rym am 12.01 a.m. ar 22 Mehefin 2020.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 1—

(a) ym mharagraff (3), ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

"(ba) ystyr "athletwr elît" yw unigolyn sydd wedi ei ddynodi felly at ddibenion y Rheoliadau hyn gan Gyngor Chwaraeon Cymru;"

(b) ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

"(4) At ddibenion y diffiniad o "athletwr elît" ym mharagraff (3)—

(a) nid yw unigolyn wedi ei ddynodi gan Gyngor Chwaraeon Cymru onid yw'r unigolyn wedi ei enwebu am ddynodiad gan gorff camp perthnasol a bod y Cyngor wedi derbyn yr enwebiad, a

(b) ystyr "corff camp perthnasol" yw corff llywodraethu cenedlaethol camp a gaiff enwebu athletwyr i gynrychioli—

(i) Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn y Gemau Olympaidd neu'r Gemau Paralympaidd, neu

(ii) Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad.

---

(**1**) O.S. 2020/353 (Cy. 80) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/399 (Cy. 88)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/452 (Cy. 102)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 (O.S. 2020/497 (Cy. 118)), Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2020 (O.S. 2020/529 (Cy. 124)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2020 (O.S. 2020/557 (Cy. 129)).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(5) At ddibenion y Rheoliadau hyn—

(a) mae person yn cymryd rhan cynulliad os yw'r person hwnnw yn ymgynnull ag un neu ragor o bersonau eraill yn yr un man er mwyn gwneud rhywbeth gyda'i gilydd;

(b) mae mangre o dan do os yw'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig o fewn yr ystyr a roddir gan reoliad 2 o Reoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007(**1**)."

(3) Yn rheoliad 4—

(a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "6(1)" rhodder "6(2)";

(b) ym mharagraff (5), ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

"(ba) o fangre ar gyfer hyfforddi athletwyr elît, gan gynnwys canolfannau sglefrio, pyllau nofio, stiwdios ffitrwydd o dan do, campfeydd, canolfannau hamdden o dan do a chyfleusterau chwaraeon eraill (boed o dan do neu yn yr awyr agored);";

(4) Yn lle rheoliad 6 rhodder—

"**Cyfyngiad cyffredinol ar siopau a busnesau a gwasanaethau penodol eraill**

**6.**—(1) Mae paragraff (2) yn gymwys—

(a) i berson ("P") sy'n gyfrifol am gynnal busnes, neu ddarparu gwasanaeth, a restrir yn Rhan 4 o Atodlen 1, a

(b) mewn cysylltiad ag unrhyw fangre lle y cynhelir y busnes neu lle y darperir y gwasanaeth.

(2) Rhaid i P gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau—

(a) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng unrhyw bersonau yn y fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd, neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr),

(b) nad yw personau ond yn cael mynediad i'r fangre mewn niferoedd digon bach fel bod modd cynnal y pellter hwnnw, ac

(c) y cynhelir pellter o 2 fetr rhwng personau sy'n aros i fynd i'r fangre (ac eithrio rhwng dau aelod o'r un aelwyd,

(**1**) O.S. 2007/787 (Cy. 68).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

neu rhwng gofalwr a'r person sy'n cael cymorth gan y gofalwr).".

(5) Yn rheoliad 6A(2), hepgorer is-baragraff (b) a'r "neu" o'i flaen.

(6) Yn rheoliad 7—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle is-baragraff (aa) rhodder—

"(za) i weinyddu priodas neu ffurfio partneriaeth sifil,";

(ii) ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—

"(aa) ar gyfer gweddïo gan—

(i) unigolyn,

(ii) aelodau o'r un aelwyd, neu

(iii) unigolyn a gofalwr yr unigolyn,

nad yw'n rhan o gydaddoli,";

(iii) yn is-baragraff (b)(ii) hepgorer "a ganiateir gan is-baragraff (aa)";

(iv) yn is-baragraff (c) hepgorer y geiriau ar ôl "wasanaethau cyhoeddus" hyd at y diwedd;

(b) ym mharagraff (5)(a) hepgorer y geiriau ar ôl "wasanaethau cyhoeddus" hyd at y diwedd.

(7) Yn rheoliad 7A(1), yn lle is-baragraff (b) rhodder—

"(b) rheoliad 6(2),".

(8) Yn rheoliad 8—

(a) ym mharagraff (1)(b), ar gyfer "bod o dan do" mewnosoder "ymgynnull mewn mangre o dan do";

(b) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle paragraff (a) rhodder—

"(a) cael nwyddau neu wasanaethau oddi wrth unrhyw fusnes neu wasanaeth a restrir yn Rhan 4 o Atodlen 1;";

(ii) ar ôl is-baragraff (g) mewnosoder—

"(ga) pan fo'r person yn athletwr elît, hyfforddi neu gystadlu;";

(iii) yn is-baragraff (i) hepgorer y geiriau ", pan fo gan barti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil salwch angheuol ac na ddisgwylir iddo wella";

(iv) ar ôl is-baragraff (l) mewnosoder—

"(la) pleidleisio mewn etholiad (gan gynnwys mewn etholiad a gynhelir y tu allan i Gymru), pan na fo'n rhesymol ymarferol pleidleisio drwy'r post, drwy ddirprwy neu drwy ddull tebyg arall;";

(v) yn lle is-baragraff (q) rhodder—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"(q) symud cartref;

(qa) paratoi eiddo preswyl i bersonau symud i mewn;

(qb) ymgymryd â'r gweithgareddau a ganlyn mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl nad yw wedi ei feddiannu—

(i) ymweld ag asiantau eiddo neu asiantau gosod eiddo, swyddfeydd gwerthiant datblygwyr neu gartrefi arddangos;

(ii) gweld eiddo o'r fath;";

(c) yn lle paragraff (3) rhodder—

"(3) At ddibenion paragraff (1)(a), nid yw'n esgus rhesymol i berson adael yr ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'r person yn byw, nac aros i ffwrdd o'r ardal honno—

(a) i gael nwyddau neu wasanaethau oddi wrth fusnes neu wasanaeth a restrir ym mharagraffau 50 i 54 o Atodlen 1;

(b) i wneud unrhyw beth arall pe bai'n rhesymol ymarferol i'r person wneud y peth hwnnw o fewn yr ardal.";

(d) ar ôl paragraff (5), mewnosoder—

"(6) At ddibenion paragraff (2)(qb), caiff eiddo ei drin fel pe na bai wedi ei feddiannu os nad yw unrhyw berson yn meddiannu'r eiddo fel preswylfa.".

(9) Yn rheoliad 8B—

(a) yn is-baragraff (c) ar ôl "angladd" mewnosoder ", priodas neu seremoni ffurfio partneriaeth sifil";

(b) ar ôl is-baragraff (d)(i) mewnosoder—

"(ia) er mwyn i athletwyr elît hyfforddi neu gystadlu;".

(10) Yn Atodlen 1—

(a) hepgorer paragraff 12;

(b) ym mharagraff 21, hepgorer ", cyrtiau chwaraeon";

(c) hepgorer paragraffau 22 a 23;

(d) ar ôl paragraff 48 mewnosoder—

"**49.** Asiantau eiddo neu asiantau gosod eiddo, swyddfeydd gwerthiant datblygwyr a chartrefi arddangos.

**50.** Delwriaethau ceir.

**51.** Marchnadoedd awyr agored.

**52.** Siopau betio.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**53.** Canolfannau siopa ac arcedau siopa o dan do.

**54.** Unrhyw fusnes neu fangre arall sy'n cynnig nwyddau neu wasanaethau i'w gwerthu neu i'w llogi mewn siop.".

**Arbedion ar gyfer troseddau a chosbau mewn perthynas â gweithredoedd blaenorol**

**3.** Mae rheoliadau 12 a 13 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir, neu y credir yn rhesymol ei bod wedi ei chyflawni, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym fel pe na bai'r diwygiadau a nodir yn rheoliad 2 wedi eu gwneud.

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
19 Mehefin 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020.

Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

22 Mehefin 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 ("y prif Reoliadau") sydd –

- yn gosod cyfyngiadau ar symudiad unigolion, gan gynnwys nodi amgylchiadau lle cânt adael ac aros i ffwrdd o'r ardal sy'n lleol i'r man lle maent yn byw, ac;
- yn ei gwneud yn ofynnol i gau rhai busnesau a gosod gofynion ar fusnesau eraill, yn ogystal â gosod dyletswyddau i gau llwybrau a thir cyhoeddus penodol, er mwyn diogelu rhag y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p.22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Yn benodol, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn bwysig llacio'r cyfyngiadau a geir yn y prif Reoliadau cyn gynted ag y bernir nad oes angen mwyach nac yn gymesur eu cadw ar eu ffurf bresennol. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a ddiwygir gan y Rheoliadau hyn yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a achosir gan coronafeirws.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan y Senedd.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Nid yw'r diwygiadau a geir yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffordd y mae'r prif Reoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop. Mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae'r prif Reoliadau'n cyffwrdd ag Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo).

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae'r llacio pellach ar y cyfyngiadau a wneir gan y Rheoliadau diwygio hyn yn ymateb cymesur sy'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau er y bydd gwneud hynny'n ddarostyngedig i gyfyngiadau, mewn modd sy'n dal i fod yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae Deddf 1984 a'r Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad. Mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar neu mewn perthynas â phersonau, pethau neu fangreoedd os bydd bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu mewn ymateb iddo. Mae adran 45F yn galluogi gwneud darpariaeth atodol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir o dan y Rheoliadau a chreu troseddau.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Gwnaed y prif Reoliadau mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Mae'r prif Reoliadau bellach yn cael eu diwygio fel a ganlyn:

- caniatáu i fangreoedd penodol fod ar agor ar gyfer hyfforddi athletwyr elît a arlwyo ei bod yn esgus rhesymol i athletwyr elit fod i ffwrdd o'i ardal leol, neu ymgynnull gyda phersonau eraill at ddibenion hyfforddi neu gystadlu;

- caniatáu i siopau bu’n gorfod bod ar gau (a delwriaethau ceir, siopau betio a marchnadoedd awyr agored) agor.  Mi fydd y siopau yma yn ddarostyngedig i ofynion sy'n ymwneud â chadw pellter corfforol (h.y. i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pobl yn y fangre yn cynnal pellter o 2 fetr rhwng ei gilydd, bod y personau sy'n aros i mewn i'r fangre yn ymbellhau yn yr un modd a bod nifer y personau yn y fangre yn gyfyngedig er mwyn caniatáu ar gyfer cadw at bellter 2 fetr).  Ni ddisgwylir i bob busnes ddewis agor ar y diwrnod cyntaf, yn hytrach bydd busnesau'n gallu agor pan fyddant o'r farn ei bod yn briodol iddynt wneud hynny.  Bydd rhaid i gwsmeriaid gadw at y gofynion 'aros yn lleol'. Gofynnir i fanwerthwyr ystyried stagro eu hamseroedd agored er mwyn lleihau'r pwysau ar drafnidiaeth gyhoeddus.

- caniatáu i seremonïau priodas gael eu cynnal mewn mannau addoli yn ddarostyngedig i ofynion cadw pellter corfforol.  Gall pobl adael eu hardal leol i fynychu priodas neu bartneriaeth sifil, a gallant ymgynnull gyda eraill at y diben hwnnw, er bod yn rhaid iddynt ddilyn y trefniadau a roddwyd yn eu lle ar gyfer ymbellhau corfforol.  Gall addoldai fod yn agored hefyd ar gyfer gweddïo preifat.  Cynhaliwyd trafodaethau ar sut y gellir gweithredu hyn gydag arweinwyr ffydd, ac i ddechrau ni ddisgwylir i bob man addoli ail-agor.

caniatáu mannau addoli, neu ganolfannau gymunedol, agor ar gais Gweinidogion Cymru neu awdurdod lleol er mwyn darparu unrhyw wasanaeth cyhoeddus.  Er enghraifft, byddai hyn yn golygu y gallai Canolfan Gymunedol agor i ddarparu cyfleusterau gofal plant.

- mae'r rhestr o esgusodion rhesymol wedi cael ei hehangu i gynnwys pleidleisio mewn etholiad lle nad oes modd pleidleisio ac eithrio yn bersonol (mae hyn yn cynnwys etholiadau mewn gwledydd eraill lle y gall fod angen i'r rhai sydd â hawl i bleidleisio ac sy'n byw yng Nghymru ar hyn o bryd deithio i Lysgenhadaeth yn Llundain er mwyn pleidleisio). Bellach, mae'r rhestr hefyd yn cynnwys yr angen i:
    - symud tŷ;
    - paratoi eiddo i rywun symud i mewn;
    - ymweld ag asiant eiddo neu asiant gosod eiddo, swyddfa werthu datblygwr neu gartref arddangos mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu neu rentu eiddo sydd heb ei feddiannu.  Golyga hyn felly mai dim ond eiddo heb ei feddiannu y gellir ei farchnata ar hyn o bryd.
    - gweld eiddo nad yw wedi ei feddiannu gyda golwg ar ei brynu neu ei rentu.

Bydd hyn yn caniatáu i bobl symud gartref pan fo’r eiddo heb denantiaid neu heb ei feddiannu ac yn caniatáu cwblhau gwerthiannau sydd eisoes wedi'u cytuno, ond wedi cael eu gohirio hyd yma oherwydd y lledaeniad y coronafeirws.

Mae’r Rheoliadau diwygio hefyd yn gwneud y darpariaethau canlyniadol a’r darpariaethau arbedion sydd eu hangen o ganlyniad i’r newidiadau a amlinellir uchod.

Bydd y prif Reoliadau (a’r diwygiadau hyn) yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod y deuant i rym – daethant i rym ar 26 Mawrth 2020 felly byddant yn dod i ben ar 26 Medi 2020.

Mae'n hollbwysig cymryd pob cam rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo’r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r prif swyddogion meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy’n deillio o’r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y prif Reoliadau yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**5. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o’r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau diwygio hyn. Mae unigolion a busnesau wedi cael gwybod am y cyfyngiadau yn y prif Reoliadau drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog y DU. Cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y newidiadau arfaethedig i’w cyflwyno gan y Rheoliadau diwygio hyn yn ystod ei Gynhadledd i’r Wasg ar 19 Mehefin, a chawsant lawer o sylw yn y cyfryngau wedyn.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)**

Ni fu asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

19 Mehefin 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 6) 2020 o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar ddechrau 22 Mehefin 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn brys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid 'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 16 Gorffennaf 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# SL(5)564 – Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020.

Mae paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn rhestru deddfiadau y caiff Gweinidogion Cymru eu datgymhwyso am gyfnod penodedig drwy hysbysiad.

Mae rheoliad 2 yn ychwanegu adran 69 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac Atodlen 19 iddi, ac adrannau 109, 110 a 116A i 116K o Ddeddf Addysg 2002, ynghyd â gorchmynion a wneir o dan adran 108 o'r Ddeddf honno, at y rhestr honno.

Mae’r darpariaethau sydd wedi eu hychwanegu yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, penaethiaid ac eraill mewn perthynas â darparu addysg grefyddol, Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru a'r cwricwlwm lleol.

Cyhoeddwyd yr hysbysiad cysylltiedig, Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru 2020, ar 23 Mehefin 2020 ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r hysbysiad hefyd yn datgymhwyso adran 101(1) o Ddeddf Addysg 2002, a oedd eisoes wedi'i rhestru ym mharagraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 40 diwrnod (ac eithrio toriad o fwy na phedwar diwrnod) gan ddechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn, oni bai fod y Rheoliadau, yn ystod y cyfnod hwnnw, yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

1. Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod hynny yn sgil y sefyllfa ddigynsail a grëwyd gan y pandemig Coronafeirws a'r amserlen heriol ar gyfer gwneud y Rheoliadau.

Nodir y cynhaliwyd gwaith ymgysylltu rheolaidd â’r prif gyrff cynrychioladol fel ADEW a chynrychiolwyr awdurdodau lleol, i helpu i lywio'r cynigion polisi ynghylch y gofynion deddfwriaethol a gaiff eu haddasu neu eu datgymhwyso. Mae'r trafodaethau hyn wedi helpu i lywio'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Rheoliadau hyn.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi na chwblhawyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn gan nad oes unrhyw gostau na buddion cysylltiedig. Nid yw'r Rheoliadau hyn ond yn ychwanegu meysydd at y rhestr o ddeddfiadau ym mharagraff 7(5) y caiff Gweinidogion Cymru wneud hysbysiadau yn eu cylch i ddatgymhwyso gofynion statudol.

O ran unrhyw hysbysiadau a wneir, rhoddir manylion am eu heffaith mewn asesiad effaith integredig.

2. Nodwn nad yw teitl y Gweinidog wedi'i gynnwys yn y llofnod o dan y Rheoliadau, yn y testun Cymraeg a’r testun Saesneg.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**29 Mehefin 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 (p. 7), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 40 niwrnod gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 624 (Cy. 144)

# ADDYSG, CYMRU

# Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn rhestru deddfiadau y caiff Gweinidogion Cymru eu datgymhwyso am gyfnod penodedig drwy hysbysiad. Mae rheoliad 2 yn ychwanegu adran 69 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac Atodlen 19 iddi, ac adrannau 109, 110 a 116A i 116K o Ddeddf Addysg 2002, ynghyd â gorchmynion a wneir o dan adran 108 o'r Ddeddf honno, at y rhestr honno. Mae'r darpariaethau sydd wedi eu hychwanegu yn rhoi swyddogaethau i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu, penaethiaid ac eraill mewn perthynas â darparu addysg grefyddol, Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru a'r cwricwlwm lleol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 (p. 7), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 40 niwrnod gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 624 (Cy. 144)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *am 10.00 a.m. ar 22 Mehefin 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *am 4.00 p.m. ar 22 Mehefin 2020* |
| *Yn dod i rym* | *23 Mehefin 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer eu pwerau o dan baragraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**).

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 23 Mehefin 2020.

**Diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020**

**2.** Ym mharagraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020—

(a) mewnosoder ar ôl paragraff (c)—

(**1**) 2020 p. 7.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

"(ca) section 69 of, and Schedule 19 to, the School Standards and Framework Act 1998 (duty to secure due provision of religious education);";

(b) mewnosoder ar ôl paragraff (e)—

"(ea) section 109 of that Act (implementation of the National Curriculum in maintained schools);

(eb) section 110 of that Act (implementation of the National Curriculum in nursery schools etc.);

(ec) sections 116A to 116K of that Act (the local curricula);";

(c) mewnosoder ar ôl paragraff (g)—

"(h) the National Curriculum (Key Stage 2 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2004 (S.I. 2004/2915 (W. 254));

(i) the National Curriculum (Key Stage 3 Assessment Arrangements) (Wales) Order 2005 (S.I. 2005/1394 (W. 108));

(j) the Education (National Curriculum) (Assessment Arrangements for Reading and Numeracy) (Wales) Order 2013 (S.I. 2013/433 (W. 51));

(k) the National Curriculum (Assessment Arrangements for the Foundation Phase and the Second and Third Key Stages) (Wales) Order 2014 (S.I. 2014/1999 (W. 200));

(l) the National Curriculum (Moderation of Assessment Arrangements for the Second and Third Key Stages) (Wales) Order 2015 (S.I. 2015/1309 (W. 113));

(m) the National Curriculum (Desirable Outcomes, Educational Programmes and Baseline and End of Phase Assessment Arrangements for the Foundation Phase) (Wales) Order 2015 (S.I. 2015/1596 (W. 195))."

*Kirsty Williams*
Teitl y Gweinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 10.00 a.m. ar 22 Mehefin 2020

**Explanatory Memorandum to** the Curriculum Requirements (Amendment of paragraph 7(5) of Schedule 17 to the Coronavirus Act 2020) (Wales) Regulations 2020

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Welsh Government and is laid before Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1.

**Minister/Deputy Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Curriculum Requirements (Amendment of paragraph 7(5) of Schedule 17 to the Coronavirus Act 2020) (Wales) Regulations 2020

Kirsty Williams
22 June 2020

## PART 1

### 1. Description

These regulations amend paragraph 7(5) of Schedule 17 to the Coronavirus Act 2020 ("the 2020 Act") so as to add:

- Section 69 of, and Schedule 19 to, the School Standards and Framework Act 1998,
- Sections 109, 110 and 116A to 116K of the Education Act 2002,
- Orders made under section 108 of the Education Act 2002,

to the list of enactments that can be disapplied by the Welsh Ministers for a specified period by notice.

The provisions added to this list of enactment confer functions on local authorities, governing bodies, head teachers and others in relation to the basic curriculum for Wales. That basic curriculum includes the following:

- Religious education
- Sex education
- Work-related education
- Personal and social education
- National Curriculum for Wales and
- local curriculum.

### 2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee

These Regulations are made in accordance with the procedure set out in paragraph 8 of Schedule 17 to the 2020 Act.

As set out in paragraph 8 of Schedule 17, the Regulations are made without a draft having been laid and approved by the Senedd. It is the opinion of the Welsh Ministers that, by reason of urgency, it is necessary to make the Regulations without a draft being so laid and approved. This is to ensure that the legislative requirements related to the provision of the curriculum can be disapplied prior to the increased operation of schools. This is necessary to ensure schools have the flexibility to focus on the health and well-being of learners, supporting them to re-integrate back into a school environment. It will also support schools to operate a blended learning approach of in-school and remote learning, creating space to do this by removing prescriptions that were designed to be delivered in a classroom environment.

The Regulations will be laid before the Senedd as soon as reasonably practicable after being made. The Regulations cease to have effect at the end

of the period of 40 days (excluding recess) beginning with the day on which the instrument is made unless, during that period, the Regulations are approved by the Senedd.

**3. Legislative background**

Paragraph 8 of Schedule 17 to the 2020 Act gives the Welsh Ministers the power to make regulations to add provisions relating to children, education or training to the list of enactments in paragraph 7(5) of the 2020 Act that can be disapplied by the Welsh Ministers for a specified period by notice.

These Regulations are being made under the made affirmative procedure.

**4. Purpose and intended effect of the legislation**

Paragraph 7(5) of Schedule 17 to the 2020 Act sets out areas in respect of which the Welsh Ministers may issue notices to temporarily disapply statutory education requirements to help mitigate the effects of the COVID-19 pandemic and enable the sector to adapt to the circumstances it is currently operating in. One of these areas is section 101 of the Education Act 2002 which places requirements on maintained schools in Wales to provide a basic curriculum including; the national curriculum, religious education, personal and social education, work related education and for secondary schools, sex education.

In preparing for the increased operations of schools consideration has been given to current statutory requirements and whether schools and governing bodies could effectively meet these without a disproportionate administrative burden and in line with social distancing requirements. This identified the need to disapply related curriculum provisions and associated assessment arrangements, namely:

- Section 69 of, and Schedule 19 to, the School Standards and Framework Act 1998 regarding the provision of religious education.

- Section 109 of the 2002 Act which requires the National Curriculum for Wales to be implemented in maintained schools in Wales and section 110 which requires it to be implemented in maintained nursery schools and some other nursery education settings in Wales.

- Sections 116A to 116K of the 2002 Act which make provision about the local curriculum including requirements that all young people are provided with a minimum offer of choices:

    - 25 choices at KS4 with a minimum of 3 vocational choices
    - 30 choices at post 16 with a minimum of 5 vocational choices

- Orders made under section 108 of the 2002 Act. This section enables Welsh Ministers to make orders relating to the national curriculum imposes requirements on schools to deliver desirable outcomes, education programmes, and assessment arrangements for Foundation Phase

provision, and attainment targets, assessment arrangements including moderation and programmes of study in respect of Key Stages 2, 3 and 4. The requirements for all learners in Year 2 to 9 in relation to the paper based reasoning tests and the online personalised numeracy and reading assessments, are imposed via Orders made under section 108. There is no need to disapply section 108 because no duties arise under that section – only the orders made under it.

These provisions are not currently listed in paragraph 7(5) of Schedule 17 to the 2020 Act and as such regulations need to be made to add these provisions to paragraph 7(5) so that the Welsh Ministers may issue notices to temporarily disapply statutory requirements.

*Rationale for proposed disapplication*

Since 20 March 2020 schools have remained open only for vulnerable children and young people and children of critical workers, in order to reduce the transmission of coronavirus and whilst attendance has fluctuated it represents approximately 1.4% of the overall school population.

Since the start of the summer term, the majority of learners have therefore been undertaking remote learning with their schools, supported by the resources and guidance provided by the Welsh Government's continuity of learning programme "Stay Safe, Stay Learning". The nature of this remote learning will vary by school – the approach that they are taking and the resources and staff they have, the age of the learner, the ability of the learner to engage with remote learning and the resources available to the leaner at home both in terms of parental or carer support and also working environment, digital resources and connectivity.

On 3 June, the Minister for Education announced that schools would increase operations from the 29 June until the 24 July, so all learners have the opportunity to 'check in, catch up and prepare for summer and September'. As more learners return to the physical school environment, practitioners will be operating in a very different context. This will continue for the foreseeable future and will be a blended learning approach – a combination of face to face learning with remote learning.

As such disapplication of the curriculum requirements and associated assessment arrangements will give schools and nursery settings the flexibility to respond to the unprecedented circumstances presented by COVID 19 and allow maintained schools and maintained nursery schools to focus and prioritise learning to meet the changing needs of learners in this time. Particularly as these the curriculum and assessment requirements were designed for traditional classroom based practice. Schools will be focusing on the health and well-being of learners and as they start to welcome certain learners back, further space and flexibility will be required to allow schools to focus on supporting learners back into a normal school environment, particularly where many learners will have faced different challenges and therefore progressed at different paces.

## 5. Consultation

No formal consultation has taken place in relation to these Regulations, in light of the unprecedented situation created by the Coronavirus pandemic and the challenging timescales within which they need to be made.

However, regular engagement has taken place with key representative bodies such as ADEW and local authority representatives, to help inform the policy proposals around legislative requirements that are going to be modified or disapplied. These discussions have helped to inform the provisions that are included within these regulations.

## 6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

There has been no regulatory impact assessment completed in relation to these Regulations as there are no associated costs or benefits. These regulations only add areas to the list of enactments in paragraph 7(5) in respect of which the Welsh Ministers can make notices to disapply statutory requirements.

In respect of any notices that are made, the impact of these will be detailed in an integrated impact assessment. However there will be no costs or benefits to private or voluntary sectors or charity sectors. In respect of schools there is likely to be no net costs or benefits, schools will not have to teach the curriculum or undertake the associated assessment arrangements, but they may choose to do so if that is of benefit to their local context and learners.

**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/KW/1683/20

Elin Jones, MS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

22 Mehefin 2020

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020 o dan baragraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 a ddaw i rym ar 23 Mehefin. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Daw'r offeryn hwn i rym cyn y caiff ei osod gerbron y Senedd. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd bydd angen cyhoeddi hysbysiad yn datgymhwyso'r cwricwlwm sylfaenol cyn i ysgolion cynyddu eu gweithgareddau. Bydd datgymhwyso'r darpariaethau hyn yn rhoi'r cyfle a'r hyblygrwydd angenrheidiol i ysgolion gael canolbwyntio ar gefnogi'r iechyd a lles y dysgwyr wrth iddynt ddechrau dychwelyd i'r ysgol, gan gydnabod yr ystyriaethau iechyd cyhoeddus parhaus a'r gofynion pellhau cymdeithasol yn golygu y bydd angen dull dysgu cyfunol o ddysgu yn yr ysgol a dysgu o bell hyd y gellir rhagweld.

Yn unol â'r weithdrefn a nodwyd ym mharagraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf Coronafeirws, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 26 Medi 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Gallai fod o gymorth i chi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth hon yn y cyfarfod llawn ar 15 Gorffennaf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad , Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau. a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

# SL(5)561 – Rheoliadau Deunyddiau Planhigion Llysieuol a Hadau (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

- Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995 (O.S. 1995/2652) (o ran Cymru yn unig) ("Rheoliadau 1995"), a
- Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 (O.S. 2012/245) (Cy. 39) ("Rheoliadau 2012").

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn (EU) 2019/990 sy'n diwygio'r rhestr o genera a rhywogaethau yn Erthygl 2(1)(b) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/55/EC, yn Atodiad II i Gyfarwyddeb y Cyngor 2008/72/EC ac yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn 93/61/EEC (OJ Rhif L 160, 18.6.2019, t. 14) ("Cyfarwyddeb 2019").

Mae Rheoliadau 1995 yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/72/EC ar farchnata deunyddiau lluosogi a phlannu llysiau, ac eithrio hadau (OJ Rhif L 205, 1.8.2008, t. 28), a Chyfarwyddeb y Comisiwn 93/61/EEC sy'n nodi'r atodlenni sy'n nodi'r amodau sydd i'w bodloni gan ddeunyddiau lluosogi a phlannu llysiau, ac eithrio hadau yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 2008/72/EC (OJ Rhif L 250, 7.10.1993, t. 19). Mae Rheoliadau 2012 yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2002/55/EC ar farchnata hadau llysiau.

Mae rheoliad 2 yn diweddaru diffiniadau yn Rheoliadau 1995 er mwyn sicrhau bod cyfeiriadau at Gyfarwyddebau 2008/72/EC a 93/61/EEC yn cyfeirio at y Cyfarwyddebau hynny fel y'u diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2019.

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r rhestr o blanhigion llysieuol a'u henwau cyffredin cysylltiedig yn Atodlen 1 i Reoliadau 2012 (hadau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt) er mwyn ei gwneud yn eglur pan fo pob amrywogaeth o rywogaeth wedi ei chynnwys a phan mai dim ond amrywogaethau penodol o rywogaeth sydd wedi eu cynnwys. Mae hefyd yn darparu ar gyfer cymhwyso Rheoliadau 2012 i hybridiau o'r rhywogaethau a'r grwpiau o blanhigion llysieuol a restrir.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 (yn ychwanegol at adran 16(1) ac (1A) o Ddeddf Amrywiaethau a Hadau Planhigion 1964). Bydd y Rheoliadau hyn yn rhan o

gyfraith yr UE a ddargedwir ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu (h.y. diwedd y cyfnod gweithredu, ar 31 Rhagfyr 2020).

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**Mehefin 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 601 (Cy. 138)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

# HADAU, CYMRU

## Rheoliadau Deunyddiau Planhigion Llysieuol a Hadau (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio—

— Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995 (O.S. 1995/2652) (o ran Cymru yn unig) ("Rheoliadau 1995"), a

— Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012 (O.S. 2012/245) (Cy. 39) ("Rheoliadau 2012").

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn (EU) 2019/990 sy'n diwygio'r rhestr o genera a rhywogaethau yn Erthygl 2(1)(b) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/55/EC, yn Atodiad II i Gyfarwyddeb y Cyngor 2008/72/EC ac yn yr Atodiad i Gyfarwyddeb y Comisiwn 93/61/EEC (OJ Rhif L 160, 18.6.2019, t. 14) ("Cyfarwyddeb 2019").

Mae Rheoliadau 1995 yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2008/72/EC ar farchnata deunyddiau lluosogi a phlannu llysiau, ac eithrio hadau (OJ Rhif L 205, 1.8.2008, t. 28), a Chyfarwyddeb y Comisiwn 93/61/EEC sy'n nodi'r atodlenni sy'n nodi'r amodau sydd i'w bodloni gan ddeunyddiau lluosogi a phlannu llysiau, ac eithrio hadau yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 2008/72/EC (OJ Rhif L 250, 7.10.1993, t. 19). Mae Rheoliadau 2012 yn gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2002/55/EC ar farchnata hadau llysiau.

Mae rheoliad 2 yn diweddaru diffiniadau yn Rheoliadau 1995 er mwyn sicrhau bod cyfeiriadau at Gyfarwyddebau 2008/72/EC a 93/61/EEC yn cyfeirio at y Cyfarwyddebau hynny fel y'u diwygiwyd gan

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Gyfarwyddeb 2019 (gweler adran 26 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4)).

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r rhestr o blanhigion llysieuol a'u henwau cyffredin cysylltiedig yn Atodlen 1 i Reoliadau 2012 (hadau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt) er mwyn ei gwneud yn eglur pan fo pob amrywogaeth o rywogaeth wedi ei chynnwys a phan mai dim ond amrywogaethau penodol o rywogaeth sydd wedi eu cynnwys. Mae hefyd yn darparu ar gyfer cymhwyso Rheoliadau 2012 i hybridiau o'r rhywogaethau a'r grwpiau o blanhigion llysieuol a restrir.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 601 (Cy. 138)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

# HADAU, CYMRU

## Rheoliadau Deunyddiau Planhigion Llysieuol a Hadau (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *16 Mehefin 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *17 Mehefin 2020* |
| *Yn dod i rym* | *10 Gorffennaf 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**1**) mewn perthynas â'r polisi amaethyddol cyffredin(**2**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â chynrychiolwyr y buddiannau hynny y mae'n ymddangos iddynt yr effeithir arnynt yn unol ag adran

(**1**) 1972 p. 68. Diddymwyd Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972") gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ("Deddf 2018") gan gael effaith o'r diwrnod ymadael ("exit day"). Mae "exit day" wedi ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw mae Deddf 1972 yn parhau i gael effaith gydag addasiadau hyd ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ("IP completion day"), yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018. Mewnosodwyd adran 1A gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020"). Mae "IP completion day" wedi ei ddiffinio yn adran 1A fel 31 Rhagfyr 2020 am 11pm (yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020). Diwygiwyd adran 2(2) o Ddeddf 1972 yn flaenorol hefyd gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

(**2**) O.S. 2010/2690, sydd wedi ei ddirymu'n rhagolygol gan O.S. 2018/1011 o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

16(1) o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 16(1) ac (1A) o Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964 ac adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deunyddiau Planhigion Llysieuol a Hadau (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020, maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 10 Gorffennaf 2020.

**Diwygio Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Deunyddiau Planhigion Llysieuol 1995(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn lle'r diffiniad o "Directive 93/61/EEC" rhodder—

""Directive 93/61/EEC" means Commission Directive 93/61/EEC setting out the schedules indicating the conditions to be met by vegetable propagating and planting material, other than seed pursuant to Directive 92/33/EEC(**3**);";

(b) yn lle'r diffiniad o "Directive 2008/72/EC" rhodder—

---

(**1**) 1964 p. 14. Mewnosodwyd adran 16(1A) gan adran 4 o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 5 o Atodlen 4 iddi. *Gweler* adran 38(1) am ddiffiniad o "the Minister". Yn unol ag erthygl 2(1) o Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) (Rhif 1) 1978 (O.S. 1978/272), ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd o dan Ddeddf Amrywogaethau a Hadau Planhigion 1964, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i'r Ysgrifennydd Gwladol. Yn unol ag erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd y swyddogaethau a drosglwyddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn 1978 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) mae'r swyddogaethau hynny bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(**2**) O.S. 1995/2652, a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/519 (Cy. 61); mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

(**3**) OJ Rhif L 250, 7.10.1993, t. 19, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn (EU) 2020/177 (OJ Rhif L 41, 13.2.2020, t. 1).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

““Directive 2008/72/EC” means Council Directive 2008/72/EC on the marketing of vegetable propagating and planting material, other than seed(**1**);”.

**Diwygio Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Hadau (Cymru) 2012(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 1, yn y tabl, yn lle'r is-bennawd “Llysiau” a'r cofnodion o dan yr is-bennawd hwnnw rhodder—

**“Llysiau**

| | |
|---|---|
| *Allium cepa* L. | – |
| —Grŵp Cepa | Nionod, Echalion |
| *Allium porrum* L. —pob amrywogaeth | Cennin |
| *Apium graveolens* L. | – |
| —Grŵp Seleri | – |
| —Grŵp Seleriac | – |
| *Asparagus officinalis* L. —pob amrywogaeth | Merllys |
| *Beta vulgaris* L. | – |
| —Grŵp Betys Gardd | Betys gan gynnwys betys Cheltenham |
| —Grŵp Betys Deiliog | Betys ysbigoglys neu Ddail betys |
| *Brassica oleracea* L. | – |
| —Grŵp Cêl | – |
| —Grŵp Blodfresych | – |
| —Grŵp Capitata | Cabets coch a Chabets gwyn |
| —Grŵp Ysgewyll Brwsel | – |
| —Grŵp Colrabi | – |
| —Grŵp Cabets Crych | – |
| —Grŵp Brocoli | Y math Calabrese a'r math Blaguro |
| —Grŵp Cêl Palmwydd | – |
| —Grŵp Tronchuda | Cabets Portiwgal |
| *Brassica rapa* L. | – |
| —Grŵp Cabets Tsieina | – |
| —Grŵp Llysiau Maip | – |
| *Cichorium endivia* L. —pob amrywogaeth | Ysgellog y meirch |
| *Cucumis melo* L. —pob amrywogaeth | Melonau |
| *Cucumis sativus* L. | – |
| —Grŵp Cucumerau | – |

(**1**) OJ Rhif L 205, 1.8.2008, t. 28, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb Weithredu'r Comisiwn (EU) 2019/990 (OJ Rhif L 160, 18.6.2019, t. 14).

(**2**) O.S. 2012/245 (Cy. 39), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/519 (Cy. 61); mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | |
|---|---|
| —Grŵp Gercynau | – |
| *Cucurbita maxima* Duchesne | Gowrdiau |
| —pob amrywogaeth | |
| *Cucurbita pepo* L. | Maros, gan gynnwys pwmpenni aeddfed a sgwoshiau sgolop, neu Courgettes, gan gynnwys sgwoshiau sgolop anaeddfed |
| —pob amrywogaeth | |
| *Daucus carota* L. | Moron a Moron Porthi |
| —pob amrywogaeth | |
| *Lactuca sativa* L. | Letys |
| —pob amrywogaeth | |
| *Solanum lycopersicum* L. | Tomatos |
| —pob amrywogaeth | |
| *Petroselinum crispum* (Mill.) Nyman ex A. W. Hill | – |
| —Grŵp Persli Deiliog | – |
| —Grŵp Gwreidd-bersli | – |
| *Phaseolus coccineus* L. | Ffa dringo |
| —pob amrywogaeth | |
| *Phaseolus vulgaris* L. | – |
| —Grŵp Ffa Ffrengig Bach | – |
| —Grŵp Ffa Ffrengig Dringol | – |
| *Pisum sativum* L. | – |
| —Grŵp Pys Crwn | – |
| —Grŵp Pys Crych | – |
| —Grŵp Pys Siwgr | – |
| *Raphanus sativus* L. | – |
| —Grŵp Radis | – |
| —Grŵp Radis Du | – |
| *Spinacia oleracea* L. | Ysbigoglys |
| —pob amrywogaeth | |
| *Vicia faba* L. | Ffa llydain |
| —pob amrywogaeth | |
| *Zea mays* L. | – |
| —Grŵp India-corn | – |
| —Grŵp Popgorn | – |
| Unrhyw hybridiau o’r rhywogaethau llysiau neu’r Grwpiau a restrir uchod”. | |

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
16 Mehefin 2020

**Explanatory Memorandum to The Vegetable Plant Material and Seed (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2020**

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Plant Health and Environment Protection Branch within the Economy, Skills and Natural Resources Department and is laid before Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1

**Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of The Vegetable Plant Material and Seed (Miscellaneous Amendments) (Wales) Regulations 2020.

Lesley Griffiths MS
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs
17 June 2020

**PART 1**

1. **Description**

These Regulations amend the Marketing of Vegetable Plant Material Regulations 1995 (“the 1995 Regulations”) in relation to Wales and the Seed Marketing (Wales) Regulations 2012 (“the 2012 Regulations”). These Regulations make amendments which are related to amendments being made to the Seeds (National Lists of Varieties) Regulations 2001 (“the 2001 Regulations”) by the Vegetable Plant Material and Seed (Miscellaneous Amendments) Regulations 2020.

These Regulations are required to assist the UK to meet its obligations under the Withdrawal Agreement to transpose EU law into domestic legislation until the end of the Implementation Period (31st December 2020). These Regulations transpose Commission Implementing Directive (EU) 2019/990 (“the 2019 Directive”) amending the list of genera and species in Article 2(1)(b) of Council Directive 2002/55/EC, in Annex II to Council Directive 2008/72/EC, and in the Annex to Commission Directive 93/61/EEC.

These Regulations change the common names of certain vegetable species in accordance with the grouping used in the International Code of Nomenclature for Cultivated Plants. They also bring hybrids between the species and groups listed into the scope of the 2012 Regulations. The changes aim to provide greater clarity for businesses.

These Regulations also bring into line the species *Cichorium intybus L*. (Chicory) with Commission Implementing Decision (EU) 2017/478. As the United Kingdom is released from the obligation to apply Directive 2002/55/EC in respect of *Cichorium intybus* L. the 2001 Regulations are being amended by the Vegetable Plant Material and Seed (Miscellaneous Amendments) Regulations 2020 to extend the derogation from the requirement to provide a national list and restrict marketing, to that species in its entirety. The 2012 Regulations will, therefore, no longer regulate *Cichorium intybus L*. of the type large-leaved (Italian) chicory.

**2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee**

Section 2(2) of the European Communities Act 1972 offers a choice between negative and affirmative procedures. The negative procedure will be used in this case as the discretion of the Welsh Ministers is limited over the content of these Regulations because they are giving effect to EU provisions. Further, these Regulations amend Regulations that were subject to the negative procedure.

## 3. Legislative background

The following domestic legislation prescribe the requirements for the marketing of vegetable seed, plant and propagating material:

- The 1995 Regulations, which implement Council Directive 2008/72/EC on the marketing of vegetable propagating and planting material, other than seed and Council Directive 93/61/EEC setting out the schedules indicating the conditions to be met by vegetable propagating and planting material, other than seed pursuant to Council Directive 2008/72/EC. They extend and apply to Great Britain. Similar legislation operates in Northern Ireland;

- The 2001 Regulations, which implement those elements of Council Directive 2002/55/EC which require member States to establish national lists of vegetable varieties. They extend and apply to the United Kingdom; and

- The 2012 Regulations, which implement Council Directive 2002/55/EC. They apply to Wales. Similar legislation operates in England, Scotland, and Northern Ireland.

The 2019 Directive amends the list of vegetable species and their associated common names covered by Council Directive 2002/55/EC and Directive 2008/72/EC, to specify the varieties covered by the scope of those Directives. The 2019 Directive takes into account the species where all varieties fall within their scope and those where only certain varieties are covered. It brings into the scope of Council Directive 2002/55/EC hybrids between the species and groups listed. The 2019 Directive also updates the botanical names of certain species in Directive 93/61/EEC, in accordance with the development of scientific knowledge. These Regulations amend the 1995 Regulations and the 2012 Regulations to implement those changes.

## 4. Purpose and intended effect of the legislation

The marketing of vegetable seed, plant and propagating material is regulated at EU level by Council Directives 2002/55/EC, 2008/72/EC and Commission Directive 93/61/EEC. These Directives establish a regime to ensure that purchasers throughout the European Union receive vegetable seed, plants and propagating material which is healthy and of good quality. They set quality standards to be met by certain genera and species of vegetable seed, plants and propagating material when marketed and prescribe conditions to be satisfied by suppliers of propagating material. Directive 2002/55/EC also provides for a national catalogue to be established listing the vegetable varieties officially accepted for certification and marketing in a Member State's territory.

The Directives specified above are transposed by the 1995 Regulations, the 2001 Regulations and the 2012 Regulations. These three Regulations provide

for the vegetable species they cover by way of a table listing both the scientific names and associated common names. However, certain varieties belong to species listed under their scientific names, but not to the types of varieties described by their common names, risking confusion as to whether a variety is covered by the scope of the regulations. These Regulations amend the 2012 Regulations to update the list of vegetable species and associated common names in order to more clearly define which varieties are regulated and, where necessary, specify the species where all varieties fall within the scope of the Regulations and those of which only certain varieties are covered. They also bring hybrids between the species and groups listed within the scope of the 2012 Regulations.

As the United Kingdom is released from the obligation to apply Directive 2002/55/EC in respect of *Cichorium intybus* L. The 2001 Regulations are being amended by the Vegetable Plant Material and Seed (Miscellaneous Amendments) Regulations 2020 to extend the derogation from the requirement to provide a national list and restrict marketing, to that species in its entirety. The 2012 Regulations will, therefore, no longer regulate *Cichorium intybus L*. of the type large-leaved (Italian) chicory.

## 5. Consultation

Given the minor and technical nature of these amendments, the Welsh Government has not undertaken a full public consultation on these Regulations, but has carried out a targeted consultation with organisations including the British Society of Plant Breeders, the Agricultural Industries Confederation and the National Farmers Union. These industry organisations represent the businesses directly affected by the amendments across Great Britain and have raised no concerns with the Welsh Government's approach.

## 6. Regulatory Impact Assessment (RIA)

These Regulations make minor technical amendments to existing Regulations, do not reflect a change of policy and will not have a substantive impact on current practices, because the underlying processes and standards are unchanged. The amendments aim to provide greater clarity for businesses in terms of the varieties covered and not covered by the scope of the regulations being amended. As such, no RIA has been prepared. This is in line with the Welsh Ministers' RIA Code.

# SL(5)567 – Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru 2020

## Cefndir a Diben

Gwneir yr Hysbysiad hwn gan Weinidogion Cymru o dan adran 38(1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020, a pharagraff 7 o Atodlen 17 iddi.

Mae'r Hysbysiad yn datgymhwyso darpariaethau amrywiol a gynhwysir mewn deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r cwricwlwm yng Nghymru, yn ystod y cyfnod rhwng 24 Mehefin 2020 a 23 Gorffennaf 2020.

Mae'r Hysbysiad yn datgan y canlynol:

- Bydd datgymhwyso dros dro ofynion sy'n ymwneud â darparu'r cwricwlwm yn rhoi'r hyblygrwydd i ysgolion a gynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir a darparwyr addysg feithrin eraill a gyllidir i ymateb yn y ffordd fwyaf priodol i'r amgylchiadau sydd ohon[ynt] ac yn caniatáu iddynt ganolbwyntio ar anghenion plant, sef anghenion sy'n newid. Yn benodol, mae angen i ysgolion a darparwyr addysg feithrin allu canolbwyntio ar iechyd a lles plant.
- Bwriedir i lawer o'r Cwricwlwm Cenedlaethol gael ei ddarparu mewn ystafell ddosbarth gorfforol ac yn ôl amserlen lawn. Gall dysgu o bell fod mewn lle am beth amser ac ni chynlluniwyd y gofynion a osodir sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ac asesu o dan adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 i'w bodloni o bell, naill ai yn gyfan gwbl neu'n rhannol.
- Nid yw datgymhwyso gofynion sy'n ymwneud â'r cwricwlwm yn rhwystro ysgolion rhag cynnal asesiadau mewn ffordd sy'n briodol ac yn berthnasol i'w cyd-destun lleol ac i anghenion plant, a'r amharu ar eu haddysg ar hyn o bryd wedi effeithio'n wahanol ar lawer o'r plant hynny. Bydd hyn yn golygu bod angen dull mwy unigol o asesu a bydd datgymhwyso dros dro ofynion sy'n ymwneud â darparu'r cwricwlwm sylfaenol yn galluogi hynny.

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.7(v) mewn perthynas â'r Hysbysiad hwn:

**1. Deddf y Coronafeirws 2020 a'i gosod gerbron y Senedd**

Nodwn fod Deddf y Coronafeirws 2020 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso, dros dro, ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r cwricwlwm yng Nghymru.

Nodwn hefyd nad yw Deddf y Coronafeirws 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Hysbysiad gael ei osod gerbron y Senedd, ond bod yr Hysbysiad wedi ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a bod Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg, wedi gwneud datganiad ysgrifenedig ynghylch yr Hysbysiad ar 23

Mehefin 2020, a ddosbarthwyd i'r holl Aelodau o'r Senedd ac sydd wedi ei **gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru**.

**2. Y cyfnod pan fo'r Hysbysiad yn gymwys**

O ddarllen yr Hysbysiad, i ni, mae'n ymddangos bod y datgymhwyso yn gymwys yn ystod y cyfnod rhwng 24 Mehefin 2020 a 23 Gorffennaf 2020. Fodd bynnag, mae datganiad ysgrifenedig y Gweinidog Addysg yn dweud y bydd yr Hysbysiad yn gymwys "o 22 Mehefin hyd nes 21 Gorffennaf".

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**29 Mehefin 2020**

I S - D D E D D F W R I A E T H

# 2020 (LLC20-35)

# DEDDF Y CORONAFEIRWS 2020

## Hysbysiad Datgymhwyso Gofynion y Cwricwlwm yng Nghymru 2020

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 38(1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**), a pharagraff 7 o Atodlen 17 iddi, yn dyroddi'r hysbysiad a ganlyn.

**Datgymhwyso gofynion y cwricwlwm**

**1.** Mae'r deddfiadau a ganlyn wedi eu datgymhwyso am y cyfnod penodedig—

(a) adran 69 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**2**) ac Atodlen 19 iddi (dyletswydd i sicrhau darpariaeth ddyladwy addysg grefyddol);

(b) adran 101(1) o Ddeddf Addysg 2002(**3**) (cwricwlwm ysgolion a gynhelir yng Nghymru i gynnwys cwricwlwm sylfaenol);

(c) adran 109 o'r Ddeddf honno (gweithredu'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn ysgolion a gynhelir);

(d) adran 110 o'r Ddeddf honno (gweithredu'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn ysgolion meithrin a gynhelir a lleoliadau addysg feithrin eraill);

(e) adrannau 116A i 116K o'r Ddeddf honno (y cwricwlwm lleol);

(f) Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 2) (Cymru) 2004(**4**);

(g) Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu Cyfnod Allweddol 3) (Cymru) 2005(**5**);

---

(**1**) 2020 p.7
(**2**) 1998 p. 31.
(**3**) 2002 p. 32.
(**4**) O.S. 2004/2915 (Cy. 254).
(**5**) O.S. 2005/1394 (Cy. 108).

(h) Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Trefniadau Asesu ar gyfer Darllen a Rhifedd) (Cymru) 2013(**1**);

(i) Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2014(**2**);

(j) Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Cymedroli Trefniadau Asesu ar gyfer yr Ail Gyfnod Allweddol a'r Trydydd Cyfnod Allweddol) (Cymru) 2015(**3**);

(k) Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Deilliannau Dymunol, Rhaglenni Addysg a Threfniadau Asesu Sylfaenol a Diwedd Cyfnod ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (Cymru) 2015(**4**).

**Y rhesymau dros ddyroddi'r hysbysiad**

**2.**—(1) Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod dyroddi'r hysbysiad hwn yn gam gweithredu priodol a chymesur o dan yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws am y rhesymau a ganlyn.

(2) Er 20 Mawrth 2020, mae ysgolion a gynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir a darparwyr addysg feithrin eraill a gyllidir wedi parhau i fod ar agor i blant hyglwyf a phlant gweithwyr hanfodol. Mae ysgolion hefyd wedi bod yn gweithio i ddarparu addysg o bell i blant eraill, gan ddibynnu ar gynhorthwy rhieni a gofalwyr.

(3) Ni all rhieni a gofalwyr sy'n cynorthwyo plant gyflawni'r un rôl ag athrawon. Mae athrawon yn darparu cymorth o bell ond nid yw hyn yn cyfateb i'r cymorth a ddarperir mewn ystafell ddosbarth. Nid yw pob plentyn yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â dysgu o bell, neu'n fodlon gwneud hynny, yn benodol plant iau a phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes gan rai plant ac aelwydydd fynediad i'r adnoddau digonol a'r dechnoleg ddigonol y mae eu hangen i ymgymryd â dysgu o bell. Felly, mae'n annhebygol y gall yr holl ofynion sy'n ymwneud â darparu'r cwricwlwm gael eu bodloni.

(4) Bydd datgymhwyso dros dro ofynion sy'n ymwneud â darparu'r cwricwlwm yn rhoi'r hyblygrwydd i ysgolion a gynhelir, ysgolion meithrin a gynhelir a darparwyr addysg feithrin eraill a gyllidir i ymateb yn y ffordd fwyaf priodol i'r amgylchiadau sydd ohoni ac yn caniatáu iddynt ganolbwyntio ar

(**1**) O.S. 2013/433 (Cy. 51).
(**2**) O.S. 2014/1999 (Cy. 200).
(**3**) O.S. 2015/1309 (Cy. 113).
(**4**) O.S. 2015/1596 (Cy. 195).

anghenion plant, sef anghenion sy’n newid. Yn benodol, mae angen i ysgolion a darparwyr addysg feithrin allu canolbwyntio ar iechyd a lles plant. Bydd angen i ysgolion a darparwyr addysg feithrin eraill a gyllidir allu canolbwyntio hefyd ar helpu plant i ddychwelyd wrth i fwy o blant fynychu’r ysgol a mangreoedd meithrin unwaith eto. Bydd llawer o blant wedi wynebu heriau gwahanol a byddant felly wedi symud ymlaen ar gyflymderau gwahanol.

(5) Bwriedir i lawer o’r Cwricwlwm Cenedlaethol gael ei ddarparu mewn ystafell ddosbarth gorfforol ac yn ôl amserlen lawn. Gall dysgu o bell fod mewn lle am beth amser ac ni chynlluniwyd y gofynion a osodir sy’n ymwneud â’r cwricwlwm ac asesu o dan adran 108 o Ddeddf Addysg 2002 i’w bodloni o bell, naill ai yn gyfan gwbl neu’n rhannol.

(6) Nid yw datgymhwyso gofynion sy’n ymwneud â’r cwricwlwm yn rhwystro ysgolion rhag cynnal asesiadau mewn ffordd sy’n briodol ac yn berthnasol i’w cyd-destun lleol ac i anghenion plant, a’r amharu ar eu haddysg ar hyn o bryd wedi effeithio’n wahanol ar lawer o’r plant hynny. Bydd hyn yn golygu bod angen dull mwy unigol o asesu a bydd datgymhwyso dros dro ofynion sy’n ymwneud â darparu’r cwricwlwm sylfaenol yn galluogi hynny.

**Cyfnod penodedig**

**3.** Yn yr hysbysiad hwn, ystyr “cyfnod penodedig” yw’r cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy’n dechrau â 24 Mehefin 2020.

*Llofnodwyd gan Kirsty Williams*

*Yr Gwenidog Addysg, un o Weinidogion Cymru*

*23 Mehefin 2020*

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Creu Hyblygrwydd i Ysgolion a Lleoliadau – Datgymhwyso'r Cwricwlwm Sylfaenol** |
| **DYDDIAD** | **23/06/2020** |
| **GAN** | **Kirsty Williams AS, Y Gweinidog Addysg** |

Heddiw, gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf y Coronafeirws 2020, rwyf wedi cyhoeddi hysbysiad yn datgymhwyso dros dro ofynion y cwricwlwm sylfaenol ar gyfer Cymru a'r trefniadau asesu cysylltiedig ar gyfer ysgolion a lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir (y rhai a ariennir yn unol â threfniadau gydag awdurdodau lleol).

Wrth i ysgolion agor i fwy o ddysgwyr, rwyf wedi nodi'n glir mai canolbwyntio ar iechyd a lles y dysgwyr ddylai fod yn flaenoriaeth inni, gan eu cynorthwyo i baratoi ar gyfer dysgu yn yr ysgol eto ac ailymroi i wneud hynny, yn enwedig yn achos y dysgwyr hynny sydd wedi dioddef fwyaf yn sgil y chwalfa bresennol. Byddaf hefyd yn disgwyl i ysgolion ac ymarferwyr fod yn defnyddio'r amser hwn i baratoi ar gyfer dull dysgu cyfunol a fydd yn cynnwys cyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb a dysgu o bell. Bydd datgymhwyso'r darpariaethau hyn yn rhoi'r cyfle a'r hyblygrwydd angenrheidiol i ymarferwyr gael canolbwyntio ar y blaenoriaethau hyn.

Mae'r darpariaethau sydd wedi'u datgymhwyso yn cynnwys:

- Adran 101 o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002") sy'n gosod gofynion ar ysgolion a gynhelir yng Nghymru i ddarparu cwricwlwm sylfaenol gan gynnwys: y cwricwlwm cenedlaethol, addysg grefyddol, addysg bersonol a chymdeithasol, addysg gysylltiedig â gwaith ac, ar gyfer ysgolion uwchradd, addysg rhyw.
- Adran 109 o Ddeddf 2002 sy'n ei gwneud yn ofynnol gweithredu Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru, yn ogystal ag adran 110 sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei weithredu mewn ysgolion meithrin a gynhelir ac mewn rhai lleoliadau addysg feithrin eraill yng Nghymru.
- Adrannau 116A i 116K o Ddeddf 2002 sy'n gwneud darpariaethau ynghylch y cwricwlwm lleol gan gynnwys gofynion bod pob person ifanc yn cael cynnig y nifer canlynol o ddewisiadau o leiaf: 25 o ddewisiadau yn CA4 gan gynnwys o leiaf 3 dewis galwedigaethol a 30 dewis yn y cyfnod ôl-16 gan gynnwys o leiaf 5 dewis galwedigaethol.

- Gorchmynion a wnaed o dan adran 108 o Ddeddf 2002 sy'n ymwneud â'r cwricwlwm cenedlaethol ac sy'n gosod gofynion ar ysgolion i’w cyflawni.
- Deilliannau dymunol, rhaglenni addysg, a threfniadau asesu ar gyfer darpariaeth y Cyfnod Sylfaen.
- Targedau cyrhaeddiad, trefniadau asesu gan gynnwys cymedroli a rhaglenni astudio mewn perthynas â Chyfnodau Allweddol 2, 3 a 4.
- Y profion rhesymu ar bapur a'r asesiadau rhifedd a darllen personol ar-lein ar gyfer pob dysgwr ym mlynyddoedd 2 i 9.

Rwyf yn atal y gofynion statudol hyn gan eu bod wedi'u cynllunio i gael eu darparu mewn amgylchedd ystafell ddosbarth. Nid yw hynny'n atal ysgolion rhag defnyddio'r rhaglenni astudio neu'r trefniadau asesu, fel yr asesiadau personol, lle bo'r rhain yn briodol i'w cyd-destun lleol ac i anghenion eu dysgwyr. Rydym hefyd wedi cyhoeddi canllawiau sy'n rhoi cyngor ar ddysgu ac addysgu y bydd ysgolion a lleoliadau’n dymuno efallai eu darparu ar gyfer gweddill tymor yr haf.

Fel y’i gwnaed yn orfodol o dan y pwerau yn Neddf y Coronafeirws 2020, bydd yr hysbysiad yn gymwys i ddechrau am gyfnod o un mis o 22 Mehefin hyd nes 21 Gorffennaf. Byddaf yn parhau i adolygu hyn, yng ngoleuni'r cyngor ar iechyd y cyhoedd a'r trefniadau gweithredu ar gyfer ysgolion a lleoliadau, yn ystod gweddill tymor yr haf.

Gellir gweld copi o'r hysbysiad yma:

https://llyw.cymru/deddfwriaeth-chanllawiau-coronafeirws-ar-y-gyfraith?_ga=2.262963980.1680416200.1592909645-1552093897.1570188855

# SL(5)571 – Hysbysiad addasu adran 3 o Ddeddf Addysg 1996 (Cymru) 2020

## Cefndir a diben

Mae adran 3 o Ddeddf Addysg 1996 yn diffinio "disgybl" fel person y darperir addysg mewn ysgol ar ei gyfer (yn ddarostyngedig i rai eithriadau).

Mae'r Hysbysiad hwn yn addasu cymhwysiad adran 3 fel nad yw person i gael ei drin fel disgybl mewn ysgol yng Nghymru dim ond oherwydd bod addysg yn cael ei darparu i'r unigolyn hwnnw yn yr ysgol dros dro, am resymau sy'n ymwneud ag achosion o'r coronafeirws neu ei drosglwyddiad.

Dim ond at ddibenion cofrestru disgyblion y mae'r addasiad hwn yn effeithiol. Mewn cyd-destunau heblaw cofrestru, ni chaiff ystyr "disgybl" yn adran 3 ei addasu.

Mae'r Hysbysiad yn nodi ym mharagraffau 2(4) a (5):

- Mae anfanteision posibl i ddisgyblion ysgolion sy'n cael plant dros dro os yw'r plant hynny yn dod yn ddisgyblion cofrestredig. Mae'r anfanteision hyn yn cynnwys y posibilrwydd o ddosbarthiadau mawr ac annhegwch i blant eraill a fyddai'n cael blaenoriaeth ar gyfer cael eu derbyn
- Bydd yr addasiad [ar gyfer adran 3] yn atal canlyniadau nas bwriadwyd sy'n codi wrth i ddisgyblion cofrestredig un ysgol fynychu ysgol arall dros dro.

Mae'r addasiad hwn o adran 3 yn gymwys yn ystod y cyfnod 29 Mehefin 2020 hyd 28 Gorffennaf 2020.

## Gweithdrefn

Dim gweithdrefn

## Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r Hysbysiad hwn:

**1. Deddf y Coronafeirws 2020 a gosod gerbron y Senedd**

Nodwn fod Deddf y Coronafeirws 2020 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, trwy hysbysiad, addasu deddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru dros dro.

Rydym hefyd yn nodi nad yw Deddf y Coronafeirws 2020 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Hysbysiad gael ei osod gerbron y Senedd, ond bod yr Hysbysiad wedi ei **gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.**

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**30 Mehefin 2020**

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

# 2020 (LLC20-38)

# DEDDF Y CORONAFEIRWS 2020

## Hysbysiad addasu adran 3 o Ddeddf Addysg 1996 (Cymru) 2020

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 38(1) o Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**), a pharagraff 7 o Atodlen 17 iddi, yn dyroddi'r hysbysiad a ganlyn.

**Addasu adran 3 o Ddeddf Addysg 1996**

**1.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys am y cyfnod penodedig.

(2) Mae adran 3 o Ddeddf Addysg 1996(**2**) (diffiniad o ddisgybl etc.) wedi ei haddasu o ran ei chymhwyso fel nad yw person, at ddibenion Deddf Addysg 1996, i'w drin fel disgybl mewn ysgol yng Nghymru dim ond am fod unrhyw addysg yn cael ei darparu i'r person hwnnw yn yr ysgol ar sail dros dro, am resymau sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws.

(3) Nid yw'r addasiad yn is-baragraff (2) yn cael effaith ond at ddibenion adran 434 o Ddeddf Addysg 1996 (cofrestru disgyblion) a Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010(**3**).

**Y rhesymau dros ddyroddi'r hysbysiad**

**2.**—(1) Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod dyroddi'r hysbysiad hwn yn gam gweithredu priodol a chymesur o dan yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws am y rhesymau a ganlyn.

(2) Er 20 Mawrth 2020, dim ond i blant hyglwyf a phlant gweithwyr hanfodol y mae ysgolion wedi parhau i fod ar agor er mwyn lleihau lledaeniad y coronafeirws.

(3) Mae ysgolion bellach yn cynllunio i gynyddu eu gweithrediadau o 29 Mehefin er mwyn galluogi dysgwyr i ailgydio, dal i fyny a pharatoi at yr haf a

(**1**) 2020 p. 7.
(**2**) 1996 p. 56.
(**3**) O.S. 2010/1954 (Cy. 187).

dechrau'r flwyddyn ysgol nesaf. Bydd nifer y dysgwyr mewn ysgolion yn gyfyngedig ac mae'n bosibl y bydd rhai plant yn mynychu ysgol ac eithrio'r ysgol y maent wedi eu cofrestru ynddi.

(4) Mae anfanteision posibl i ddisgyblion ysgolion sy'n cael plant dros dro os yw'r plant hynny yn dod yn ddisgyblion cofrestredig. Mae'r anfanteision hyn yn cynnwys y posibilrwydd o ddosbarthiadau mawr ac annhegwch i blant eraill a fyddai'n cael blaenoriaeth ar gyfer cael eu derbyn.

(5) Bydd yr addasiad a wneir gan baragraff 1(2) o'r hysbysiad hwn yn atal canlyniadau nas bwriadwyd sy'n codi wrth i ddisgyblion cofrestredig un ysgol fynychu ysgol arall dros dro.

(6) Mae'r cyfyngiad i'r addasiad hwn gan baragraff 1(3) yn cadw dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill sy'n bodoli o ran 'disgyblion' y mae angen iddynt barhau.

**Cyfnod penodedig**

**3.** Yn yr hysbysiad hwn, ystyr "cyfnod penodedig" yw'r cyfnod o 30 o ddiwrnodau sy'n dechrau â 29 Mehefin 2020.

*Llofnodwyd gan Kirsty Williams*

*Y Gwenidog Addysg, un o Weinidogion Cymru*

*12:45 p.m. ar 25 Mehefin 2020*

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-LG-1999-20

Mr Mick Antoniw AS/MS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddLJC@senedd.wales

30 Mehefin 2020

Annwyl Mick

**Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU 2019-21.**

Diolch am yr ystyriaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i rhoi i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU 2019-21 a'i adroddiad arno.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y sefyllfa o ran craffu ar y Bil gan Senedd y DU a Senedd Cymru. Cynhaliwyd cam Adroddiad Tŷ'r Arglwyddi ar 22 a 24 Mehefin. Nodaf fod nifer bach o welliannau wedi'u gwneud ac, felly, byddaf yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol gerbron y Senedd. Bwriedir cynnal y Trydydd Darlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 1 Gorffennaf a chaiff y Bil ei gyflwyno wedyn i Dŷ'r Cyffredin.

Am fod amserlen Senedd y DU ar ei hôl hi oherwydd COVID-19, tybiwyd bod angen gohirio'r drafodaeth ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn y Senedd, yr oedd disgwyl iddi gael ei chynnal ar 8 Gorffennaf. Fel yr amcangyfrif gorau, am nad yw'r dyddiadau ar gyfer pob un o'r camau nesaf yn Nhŷ'r Cyffredin wedi'u cadarnhau eto, rwy'n disgwyl mai'r amser priodol i gynnal y drafodaeth fydd ar ôl toriad yr haf – er mwyn ystyried unrhyw welliannau a wneir ar gam Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cyn gynted â phosibl, byddaf yn adfer dyddiad ar gyfer y drafodaeth ar y cynnig cydsyniad ac yn darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol er mwyn i bob Aelod o'r Senedd roi ystyriaeth briodol i'w penderfyniad ynghylch cydsynio. Yn y cyfamser, rwyf wedi ystyried yr argymhellion ac wedi rhoi fy ymatebion yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

<u>Goblygiadau ariannol</u>

Bil fframwaith yw hwn a bydd angen ystyried sut y byddwn yn rhoi'r swyddogaethau newydd ar waith, yng nghyd-destun gwaith ehangach Is-adran y Môr a Physgodfeydd. Lle y gall costau ychwanegol godi, byddant yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

Fodd bynnag, mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud gwaith cynllunio ar gyfer y ffordd y caiff swyddogaethau newydd, gan gynnwys o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud ag ymadael â'r UE, eu cyflawni wrth inni adael cyfnod pontio'r UE. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw ddeddfwriaeth newydd. Mae'n rhy gynnar i ddweud, ar hyn o bryd, beth fydd cwmpas a maint unrhyw newid. Dylai'r darlun fod yn gliriach pan fyddwn yn deall ein cydberthynas â'r UE yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

**Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (a gyhoeddwyd ar 21 Mai 2020) ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Bil Pysgodfeydd y DU 2019-21**

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **Argymhelliad 1.** Dylai'r Gweinidog, fel mater o frys a chyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, egluro a chadarnhau pa ddarpariaethau penodol yn y Bil sydd eu hangen i gyflawni'r nod dymunol o sefydlu fframwaith cyffredin deddfwriaethol ar gyfer pysgodfeydd i'r DU gyfan. | **Derbyn**<br><br>Rwy'n fodlon egluro hyn. Mae'r mwyafrif o Fil Pysgodfeydd y DU yn cynnwys darpariaethau sydd eu hangen i gyflawni'r nod dymunol o sefydlu fframwaith cyffredin ar gyfer pysgodfeydd i'r DU gyfan. Mae'n creu elfennau deddfwriaethol sylfaenol Fframwaith y DU ar gyfer rheoli a chefnogi pysgodfeydd, gan ddarparu un set o amcanion, dyletswyddau a phwerau.<br><br>Bil fframwaith yw hwn. Mae'n cael ei gyflwyno yn lle'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Ceir darpariaethau sydd eu hangen ar gyfer Fframwaith Cyffredin Deddfwriaethol gwbl weithredol ar gyfer Pysgodfeydd i'r DU gyfan. Bydd y darpariaethau hyn yn gymwys ledled y DU, i bob gweinyddiaeth bysgodfeydd.<br><br>Elfennau craidd y fframwaith cyffredin yw:<br><br>Cymalau 1 – 11 ac Atodlen 1 - *Amcanion pysgodfeydd, datganiadau pysgodfeydd a chynlluniau rheoli pysgodfeydd*<br><br>*Cymalau 12 – 13, Atodlenni 2 a 4 – Mynediad i bysgodfeydd Prydain a rheoleiddio cychod pysgota tramor*<br><br>*Cymalau 14 – 22 ac Atodlen 3 – Trwyddedu cychod pysgota*<br><br>*Cymalau 23 – 27 ac Atodlen 5 – Cyfleoedd pysgota* gan gynnwys darpariaethau ynghylch gwerthu cyfleoedd pysgota er mwyn sicrhau y gallwn fanteisio ar yr hyn a fydd, gobeithio, yn gyfran fwy o gwota i bysgotwyr o Gymru, ar ôl inni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE). Mae'r pwerau hyn yn cyfateb i bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol.<br><br>Mae'r cymalau a nodwyd uchod yn darparu i bedair gweinyddiaeth y DU gydweithio er mwyn datblygu polisïau'r fframwaith cyffredin. Wedyn, aiff y Bil ymlaen i ddarparu nifer o bwerau neu ddulliau gweithredol sydd wedi'u breinio yn y gweinyddiaethau unigol er mwyn cynyddu hyd yr eithaf ar allu a phŵer pob gweinyddiaeth i reoli eu pysgodfeydd eu hunain. Caiff y dulliau hyn eu defnyddio i weithredu a chyflawni'r polisïau a ddatblygwyd yn y fframwaith. Mae'r swyddogaethau gwneud rheoliadau hyn yn fwy gweithredol eu natur ond mae eu hangen er mwyn sicrhau y gallwn roi'r polisïau y cytunwyd arnynt o fewn y fframwaith ar waith yng Nghymru, ond mewn ffordd sydd wedi'i theilwra orau i ddiwallu anghenion Cymru. Maent fel a ganlyn:<br><br>*Cymal 33 ac Atodlen 6* – maent yn rhoi pwerau i bob un o weinyddiaethau'r DU roi cymorth ariannol er mwyn atgynhyrchu'r |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| | pwerau y mae'r cyrff hynny yn eu harfer ar hyn o bryd o dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.<br><br>*Cymal 34 ac Atodlen 7* – maent yn galluogi Gweinidogion Cymru (gyda phwerau cyfatebol i'r Sefydliad Rheoli Morol a phob gweinyddiaeth bysgodfeydd) godi tâl am wasanaethau a ddarperir mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau pysgodfeydd yn ehangach na chynt. Pwerau gweinyddol yw'r rhain i bob pwrpas, nad oes eu hangen ar gyfer y fframwaith ond a fydd yn ei gwneud yn bosibl i arian cyhoeddus gael ei reoleiddio a'i ddefnyddio'n well.<br><br>*Cymalau 36 – 42 ac Atodlen 8* – maent yn darparu pwerau gwneud offerynnau statudol i bob gweinyddiaeth wneud darpariaeth ynghylch pysgodfeydd a dyframaethu. Mae'r rhain yn bwerau pwysig sy'n ein galluogi i ddiwygio deddfwriaeth yr UE a ddargedwir, heb geisio deddfwriaeth sylfaenol wrth i ni symud i ffwrdd oddi wrth reoli pysgodfeydd o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin tuag at reoli pysgodfeydd o dan y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a chynlluniau rheoli pysgodfeydd. Wrth gwrs, byddai hyn yn ein galluogi i wyro oddi wrth yr UE petaem o'r farn bod angen gwneud hynny, rhoi rhwymedigaethau rhyngwladol ar waith neu ddal i fyny â'r UE, am ei bod yn amlwg bod deddfwriaeth ynglŷn â physgodfeydd yn datblygu'n barhaus.<br><br>Mae'r pwerau gwneud rheoliadau hyn yn sicrhau bod gan bob gweinyddiaeth yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i roi'r polisïau a'r targedau a luniwyd ac y cytunwyd arnynt o fewn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd a'r cynlluniau rheoli pysgodfeydd ar waith. Felly, mae'n elfen bwysig o'r fframwaith cyffredin, sy'n ddigon hyblyg ar yr un pryd er mwyn i bob gweinyddiaeth allu sicrhau bod y rheoliadau a wneir yn benodol i anghenion a blaenoriaethau pob gweinyddiaeth.<br><br>Mae *Cymal 44 ac Atodlen 9* yn cyflwyno diwygiadau arwyddocaol i Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 mewn perthynas â rheoleiddio'r defnydd a wneir o adnoddau pysgodfeydd y môr. Mae'r diwygiadau yn rhoi pwerau gwneud gorchmynion newydd i Weinidogion Cymru reoli'r defnydd a wneir o adnoddau pysgodfeydd y môr er mwyn diogelu fflora a ffawna'r môr neu gynefinoedd morol. Mae'r pwerau hyn yn hollbwysig er mwyn i bysgodfeydd allu cael eu rheoli mewn ffordd hyblyg ac rydym yn bwriadu eu defnyddio cyn gynted â phosibl. Mae'r pwerau hyn yn cael eu rhoi i bob gweinyddiaeth bysgodfeydd.<br><br>Byddwn yn dibynnu ar y rheoliadau a'r pwerau gwneud gorchmynion hyn er mwyn cyflwyno deddfwriaeth sydd ei hangen i roi'r polisïau y cytunwyd arnynt yn y fframwaith ar waith a darparu dulliau gweithredu cydgysylltiedig gyda'r gweinyddiaethau pysgodfeydd eraill, neu gyflawni ar yr un pryd â'r gweinyddiaethau pysgodfeydd eraill e.e. cyflwyno cynllun cymorth pysgodfeydd. Felly, mae'n ddoeth cymryd y pwerau hyn drwy'r Bil hwn hefyd a pheidio â mentro rhoi buddiannau Cymru o dan anfantais nes inni allu cyflwyno pwerau pellach mewn Bil Pysgodfeydd i Gymru. |

| **Argymhelliad** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|
| **Argymhelliad 2.** Cyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, dylai'r Gweinidog egluro'r canlynol:<br><br>▪pam mae Bil Pysgodfeydd i Gymru wedi'i ohirio tan adeg anhysbys yn y dyfodol, pan gofir mai safbwynt Llywodraeth Cymru oedd y byddai Bil yn cael ei gyflwyno o fewn y 12 mis nesaf;<br><br>▪yr amser fydd ei angen i baratoi Bil Pysgodfeydd i Gymru. | **Derbyn**<br><br>Mae'n amlwg bod nifer o resymau pam mae dyddiad cyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru wedi'i ohirio. Wrth gwrs, mae'r ffaith bod Bil Pysgodfeydd y DU wedi'i ohirio wedi cael sgil-effaith ar ein gallu i gyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru, am fod y Bil yng Nghymru yn dibynnu ar ymestyn cymhwysedd deddfwriaethol i'r Senedd.<br><br>Rydym mewn cyfnod o gryn ansicrwydd i'n diwydiant pysgota. Mae COVID-19 eisoes wedi cael effaith sylweddol ar y diwydiant a'n cymunedau arfordirol ac nid yw effeithiau Brexit wedi'u teimlo eto. Oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â'r negodiadau parhaus ynghylch pysgodfeydd a'n cydberthynas â'r UE yn y dyfodol – mae'r sefyllfa rydym ynddi yn newid yn barhaus ac mae angen inni barhau i fod yn hyblyg ac yn ymatebol er mwyn sicrhau y gallwn fabwysiadu'r polisi cywir a chymryd y camau deddfwriaethol cywir ar yr adeg gywir.<br><br>Rwy'n cytuno'n llwyr â'ch honiad yn eich adroddiad ynghylch yr angen i roi rhywfaint o sicrwydd i randdeiliaid ynglŷn ag amseriad polisi pysgodfeydd i Gymru a Bil priodol i Gymru.<br><br>Bwriad y Llywodraeth hon yw cyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru yn nhymor nesaf y Senedd. Bydd yr amser sydd ei angen i baratoi Bil yn cynnwys camau datblygu arferol Bil, gan gynnwys papur gwyn, a chaiff hyn ei lywio, o reidrwydd, gan amseriadau polisi pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol.<br><br>Brexit a'n Moroedd oedd dechrau sgwrs barhaus â'n rhanddeiliaid yng Nghymru, a fydd yn llywio'r broses o ddatblygu polisi pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol. Rydym yn bwriadu parhau â'r sgwrs. Gohiriwyd cyhoeddi'r ymateb i ymgynghoriad Brexit a'n Moroedd oherwydd pandemig COVID-19. Rwy'n adolygu'r ymateb yng ngoleuni'r pandemig a'r ansicrwydd parhaus ynglŷn â phontio o'r UE. |
| **Argymhelliad 3.** Dylai'r Gweinidog esbonio, cyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, sut y bydd Bil Pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol yn gweithio o fewn fframwaith pysgodfeydd cyffredin i'r DU gyfan. | **Derbyn**<br><br>Yn ogystal â nodi a chydgysylltu dull gweithredu cyffredin i'r DU gyfan, rôl y fframwaith pysgodfeydd yw cydnabod gallu pob llywodraeth i ddatblygu polisi wedi'i deilwra ar gyfer ei thiriogaeth unigol a chynnig cyfle iddynt ddod at ei gilydd ac ystyried sut y caiff hyn ei reoli ledled y DU.<br><br>Bydd Bil Pysgodfeydd y DU yn rhoi'r darpariaethau deddfwriaethol craidd sydd eu hangen ar gyfer fframwaith cyffredin pysgodfeydd y DU. Un o elfennau allweddol y fframwaith yw Amcanion Pysgodfeydd y DU, sef set gyffredin o amcanion y mae angen inni weithio tuag atynt. Byddai angen i unrhyw Fil Pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol ystyried yr amcanion hyn. Mae'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn darparu'n benodol i bob gweinyddiaeth gael ei pholisïau ei hun, wedi'u teilwra at ei hanghenion ei hun, er mwyn cyflawni'r amcanion, lle y bo angen. |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| | O ganlyniad, byddwn yn disgwyl i ddarpariaethau allweddol y fframwaith, megis yr amcanion a'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, aros ym Mil y DU.<br><br>Byddai Bil Pysgodfeydd i Gymru hefyd yn destun trafodaethau ynghylch ein polisi pysgodfeydd ar gyfer y dyfodol, y byddwn yn ei ddatblygu gyda rhanddeiliaid.<br><br>Nes inni gael y sgyrsiau hynny, mae'n anodd rhagweld pa bwerau pellach yn union y byddai eu hangen arnom a sut y byddent yn gweithio o fewn y fframwaith pysgodfeydd cyffredin. Mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo i ddull y fframwaith cyffredin ac, wrth gwrs, bydd unrhyw Fil Pysgodfeydd i Gymru yn y dyfodol yn ei ystyried. I ailadrodd, mae'n bwysig cofio bod rheoli pysgodfeydd yn fater datganoledig. Gweinidogion Cymru yn unig sydd â'r pŵer i arfer swyddogaethau a chyflwyno deddfwriaeth. Mae'r fframwaith yn parchu datganoli ac yn galluogi dulliau gweithredu gwahanol ledled y DU, lle y bo'n briodol, fel y nodir yn egwyddorion Cyd-bwyllgor y Gweinidogion. |
| **Argymhelliad 4.** Dylai'r Gweinidog wneud y canlynol:<br><br>▪ceisio gwelliant i'r Bil er mwyn mewnosod ‘darpariaeth fachlud’ yn y cymalau yn y Bil sy'n gymwys i Gymru erbyn 2024, er mwyn sicrhau bod eglurder yn y dyfodol ynglŷn â'r ffordd y caiff y ddeddfwriaeth sylfaenol ynglŷn â physgodfeydd yng Nghymru ei chymhwyso;<br><br>rhoi gwybodaeth fanwl yn gyson i'r Pwyllgor am ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch gwelliant o'r fath. | **Gwrthod**<br><br>Rwy'n cydnabod yn llawn y rheswm dros yr argymhelliad hwn ac yn cytuno y dylid rhoi eglurder ynglŷn ag amseriadau Bil Pysgodfeydd i Gymru a'i bod yn hanfodol bod hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth. Fel y nodais uchod, mae'r Llywodraeth hon yn bwriadu cyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru yn nhymor nesaf y Senedd.<br><br>Fel arfer, ystyrir cymalau machlud pan fo amserlen glir ar gyfer dileu darpariaethau i Gymru a chyflwyno rhai newydd yn eu lle ac, fel y nodais uchod, rydym mewn cyfnod o gryn ansicrwydd i'n diwydiant pysgota. Nid bwrw ymlaen â deddfwriaeth dim ond er mwyn gwneud hynny yw'r ffordd o ddarparu polisi na deddfwriaeth dda. Mae'n hollbwysig ein bod yn cymryd yr amser i fyfyrio a phwyso a mesur y sefyllfa fel y mae.<br><br>Yn y cyfamser, bydd angen inni sicrhau bod gennym yr adnoddau sydd eu hangen i reoli'r heriau sy'n wynebu ein diwydiant pysgodfeydd o ganlyniad i Brexit (a COVID-19 bellach), felly mae angen inni gadw'r pwerau ym Mil y DU, cyhyd ag y gallai fod eu hangen arnom. Nid ydym am osod cymal machlud sy'n creu'r risg y collir pwerau allweddol i Gymru, drwy weithrediad awtomatig deddf. Rydym am gyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru sydd wedi'i datblygu gan roi digon o amser i graffu arni a'i hystyried yn briodol. Nid wyf yn barod i geisio cymal machlud a allai roi diwydiant pysgota Cymru o dan anfantais o gymharu â gweddill y diwydiant yn y DU.<br><br>Fodd bynnag, gallaf hefyd eich sicrhau nad yw'n fwriad gennyf gael y pwerau hyn sydd mewn Bil a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU am fwy o amser nag sydd ei angen a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflwyno Bil Pysgodfeydd i Gymru. |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **Argymhelliad 5.** Dylai'r Gweinidog egluro pam mae'n briodol gofyn i'r Senedd am ei chydsyniad i ddarpariaethau perthnasol y Bil os na chytunwyd ar y memorandwm cyd-ddealltwriaeth.<br><br>**Argymhelliad 6.** Dylai'r Gweinidog roi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor ynghylch y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, gan gynnwys mecanwaith datrys anghydfod. | **Argymhelliad 5** – Derbyn<br>**Argymhelliad 6** – Derbyn<br><br>Mae fy swyddogion yn gweithio gyda Defra a'r llywodraethau datganoledig eraill i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Rydym yn pwyso am i gynnydd gael ei wneud o ran y mater hwn, a'm bwriad yw y caiff yr Aelodau gyfle i fwrw golwg dros y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, mewn perthynas â chymal 23, cyn ei phenderfyniad ynghylch cydsynio.<br><br>Byddaf yn rhoi diweddariadau rheolaidd i'r Pwyllgor ynghylch y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, gan gynnwys mecanwaith datrys anghydfod. |
| **Argymhelliad 7.** Dylai'r Gweinidog ddarparu gwybodaeth, naill ai mewn dogfen atodol neu o fewn unrhyw gynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol, yn cyfiawnhau pam mae'n briodol cymryd pob un o'r pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru a geir yn y Bil, a'r weithdrefn a ddewiswyd ar gyfer pob pŵer gwneud rheoliadau. | **Derbyn**<br><br>Byddaf yn darparu'r wybodaeth mewn dogfen atodol neu o fewn unrhyw Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol. |
| **Argymhelliad 8.** Cyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, dylai'r Gweinidog roi rhagor o eglurder ynglŷn â'r pwerau gwneud rheoliadau yn Atodlen 3 ac, yn benodol, o dan ba amgylchiadau y byddai Gweinidog Cymru yn ystyried ei bod yn | **Derbyn**<br><br>Mae trwyddedu yn adnodd allweddol ar gyfer rheoli pysgodfeydd. Mae'n galluogi rheoleiddwyr i gymhwyso rheolaethau ar lefel y gweithgarwch pysgota masnachol. Mater datganoledig yw hwn, fodd bynnag, rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu cydgysylltiedig, er mwyn sicrhau bod fframwaith clir ar gyfer trwyddedu pysgota yn y DU.<br><br>Mae'r darpariaethau a'r pwerau yng nghymalau 14 i 17 ac Atodlen 3 i'r Bil yn disodli darpariaethau trwyddedu cyfatebol presennol a geir ar hyn o bryd yn Neddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967 a Gorchymyn Trwyddedu Pysgota Môr 1992 mewn perthynas â chychod pysgota o Brydain. Maent hefyd yn gosod gofynion trwyddedu newydd ar |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| angenrheidiol ac yn fuddiol arfer y pwerau hyn fel awdurdod trwyddedu pysgota môr. | gychod pysgota tramor sy'n pysgota o fewn terfynau pysgodfeydd Prydain sy'n ofynnol o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.<br><br>Mae'r Bil yn gwneud diwygiadau canlyniadol i dri offeryn statudol trwyddedu sy'n bodoli eisoes, sef: Gorchymyn Pysgota Môr (Trwyddedu) 1992 (sy'n cynnwys pwerau i swyddogion pysgodfeydd môr Prydain. Rheoliadau Pysgota Môr (Trwyddedau a Hysbysiadau) 1994 (sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi trwyddedau, a hysbysiadau a gyflwynir o dan drwyddedau); a Gorchymyn Trwyddedu Pysgota Môr (Amser ar y Môr) (Egwyddorion) 1993 (sy'n darparu ar gyfer cymhwyso egwyddorion wrth bennu nifer y diwrnodau y gellir eu treulio ar y môr mewn trwydded). Mae'r diwygiadau yn sicrhau y bydd y tri offeryn statudol hyn yn parhau i weithredu gyda'r pwerau trwyddedu newydd yn y Bil. Mae'r pŵer gwneud rheoliadau yn Atodlen 3 yn galluogi Gweinidogion Cymru i reoli'r system drwyddedu yng Nghymru a gwneud newidiadau yn y dyfodol os bydd angen, er mwyn sicrhau bod gennym system drwyddedu gadarn ar waith. Fodd bynnag, ar hyn o bryd ni fwriedir newid y ddarpariaeth a wneir yn y Bil na'r tri offeryn hyn.<br><br>Mae'r Bil yn nodi fframwaith ond mae'n bosibl y byddwn am gyflwyno manylion pellach yn y dyfodol er mwyn helpu i redeg ein system drwyddedu yn effeithiol.<br><br>Bydd rheoliadau gan gynnwys y ddarpariaeth a ddisgrifiwyd uchod yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd. Byddwn yn cynnwys y tabl y gofynnwyd amdano sy'n cyfiawnhau'r broses gymeradwyo sy'n gymwys i bob un o bwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol. |
| **Argymhelliad 9.** Dylai'r Gweinidog ymrwymo i osod datganiad ysgrifenedig gerbron y Senedd yn rhoi gwybod am unrhyw orchymyn perthnasol a wneir o dan adrannau 134A neu 134B o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 er mwyn sicrhau bod popeth yn agored ac yn dryloyw. | **Gwrthod**<br><br>Bydd adran 135 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, fel y'i diwygiwyd gan y Bil, yn darparu i Orchmynion a wneir o dan adrannau 134A a 134B gael ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru, gan sicrhau bod popeth yn agored ac yn dryloyw. Mae adran 135 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r gorchymyn mewn ffordd sy'n debygol o'i ddwyn i sylw'r bobl hynny y bydd gwneud y gorchymyn yn effeithio arnynt, a fyddai'n cynnwys y Senedd. Byddai cyhoeddi yn cynnwys ei roi ar wefan Llywodraeth Cymru. Felly, yn fy marn i, nid oes angen yr ymrwymiad hwn. |
| **Argymhelliad 10.** Cyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil, dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor er mwyn egluro pam nad oes angen i'r | **Derbyn**<br><br>Oherwydd y cysylltiadau rhwng cymal 4 a chymal 23, gallaf ddeall pam mae'r Pwyllgor wedi codi'r mater hwn. Fodd bynnag, nid ydym o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd.<br><br>Mae a wnelo cymal 4 â Datganiad Pysgodfeydd yr Ysgrifennydd Gwladol a phennu polisïau gan yr Ysgrifennydd Gwladol ynghylch sut y byddant yn cyflawni amcanion pysgodfeydd y DU, drwy arfer eu swyddogaethau, a all gynnwys swyddogaethau cwota'r DU a |

| Argymhelliad | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| Senedd gydsynio i gymal 4 o'r Bil. | materion eraill a gedwir yn ôl. Felly, yn ein barn ni, nid oes angen i'r ddarpariaeth benodol hon gael cydsyniad.<br><br>O ran y gydberthynas rhwng cymal 4 a chymal 23. O dan gymal 4, byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn pennu polisi Llywodraeth y DU a fydd yn nodi sut y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn arfer swyddogaeth gwota'r DU o dan gymal 23.<br><br>Ar y llaw arall, o dan gymal 23, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn arfer swyddogaeth fwy gweithredol ei natur i bennu cyfleoedd pysgota ar gyfer pob cwch pysgota o Brydain a allai gynnwys darpariaeth ar gyfer ardal ddaearyddol a leolir yn gyfan gwbl yng Nghymru. Yn ein barn ni, nid dyma fwriad cymal 23, a dyna pam rydym wedi cytuno i sicrwydd gael ei roi yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ynglŷn â defnyddio'r pŵer. |

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: LG/2051/20

Mick Antoniw AS
Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
10 Stryd y Farchnad
Pont-y-pridd
CF37 2ST

Mick.Antoniw@senedd.wales

29 Mehefin 2020

Annwyl Mick

**Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Amaethyddiaeth 2019-21**

Diolch i chi ac aelodau'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) ar y Bil Amaethyddiaeth a gyflwynais ger bron y Senedd ar 12 Chwefror. Rwyf wedi ystyried Adroddiad y Pwyllgor ac wedi rhoi fy ymateb i bob un o'r 3 argymhelliad a godwyd yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am hynt y Bil i'r Pwyllgor. Ar 13 Mai, cwblhaodd y Bil ei daith trwy Dŷ'r Cyffredin lle cafodd gwelliannau eu gwneud i nifer o ddarpariaethau oedd yn ymwneud â Chymru i hwyluso ei weithrediad. Fe welwch fanylion y gwelliannau hyn yn y Memorandwm Ategol o roddwyd ger bron y Senedd ar 11 Mehefin. Derbyniodd y Bil ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 18 Mai, yr Ail Ddarlleniad ar 10 Mehefin a chadarnhawyd mai dau ddyddiad cyntaf Cyfnod y Pwyllgor fyddai 7 a 9 Gorffennaf.

Yn ystod Ail Ddarlleniad y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi, mynegodd nifer arwyddocaol o Arglwyddi eu pryderon bod diffyg amddiffyniad yn y ddeddfwriaeth i safonau amaethyddol y DU mewn cytundebau masnach yn y dyfodol. Rydym wastad wedi dweud yn glir wrth Lywodraeth y DU na ddylai unrhyw gytundeb masnach yn y dyfodol danseilio ein deddfwriaeth ddomestig na'n safonau uchel o ran cynnyrch a chynhyrchu yma yng Nghymru. Ar 12 Mehefin, ysgrifennais at George Eustice AS y DU, yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gwledig, i esbonio safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch iechyd a lles anifeiliaid a materion Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion allweddol mewn cytundebau masnach yn y dyfodol. Mae diogelwch bwyd ac iechyd a lles anifeiliaid yn faterion sydd wedi'u datganoli ac mae polisi Llywodraeth Cymru'n glir bod yn rhaid cynnal safonau uchel yng Nghymru o ran bwyd, lles anifeiliaid a'r amgylchedd.

Rwyf wedi ymrwymo i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn nhymor nesa'r Senedd. Gan adeiladu ar sylfeini ein dau ymgynghoriad *Brexit a'n Tir* a *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, rwyf am gyhoeddi Papur Gwyn yn ddiweddarach eleni fydd yn esbonio cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol ffermio yng Nghymru gan baratoi'r tir ar gyfer Bil Amaethyddiaeth (Cymru).

Fel y dywedais yn y Memorandwm ar Fil Amaethyddiaeth y DU, mae pwerau'n cael eu cymryd ar gyfer Gweinidogion Cymru fel mesur dros dro i'n caniatáu i gefnogi ffermwyr yng Nghymru ac i sicrhau bod sectorau amaethyddol ar draws y DU yn gallu gweithredu'n effeithiol ar ôl gadael yr UE. Yn y cyfnod hwn o ansicrwydd digynsail wrth inni barhau i baratoi ar gyfer ymadael â'r UE gan ddelio yr un pryd ag enbydrwydd y pandemig, mae'r Bil yn gyfrwng deddfwriaethol pwysig i sicrhau dilyniant a sefydlogrwydd y mae mawr eu hangen ar amaethyddiaeth Cymru.

Yr eiddoch yn gywir



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

**ATODIAD**

# Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Amaethyddiaeth y DU 2019-21 (a gyhoeddwyd ar 12 Mai 2020)

| Argymhelliad y Pwyllgor | Ymateb Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| **Argymhelliad 1**<br><br>Dylai'r Gweinidog ysgrifennu atom yn egluro i ba raddau y mae'r Bil yn ymwneud ag unrhyw fframwaith cyffredin ac, os yw'n briodol, dylid nodi'n glir y darpariaethau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r fframwaith hwnnw. | **Nodwyd**<br><br>Yn dilyn trafodaeth helaeth, mae pedair llywodraeth y DU o'r farn mai'r ffordd o orau o reoli'r broses o gyflawni fframwaith cyffredin yw trwy Goncordat Gweinidogol. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio gyda llywodraethau eraill y DU i ddatblygu'r fframwaith arfaethedig y bydd disgwyl iddo ymdrin â meysydd fel ymyrryd mewn marchnadoedd, casglu data a threfniadau rhannu ynghyd â threfniadau i leihau biwrocratiaeth a rhoi eglurder ynghylch daliadau sy'n rhychwantu ffiniau. |
| **Argymhelliad 2**<br><br>Dylai'r Gweinidog ddarparu gwybodaeth, naill ai mewn dogfen atodol neu mewn unrhyw Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol, yn cyfiawnhau pam ei bod yn briodol cymryd pob un o'r pwerau i lunio rheoliadau ar gyfer Gweinidogion Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y Bil, a'r weithdrefn a ddewiswyd ar gyfer pob pŵer i wneud rheoliadau. | **Derbyn**<br><br>Mae'r pwerau gwneud rheoliadau sy'n cael eu cymryd ar gyfer Gweinidogion Cymru yw'r rheini sydd eu hangen i roi dilyniant a sefydlogrwydd i ffermwyr yng Nghymru wrth inni baratoi i adael yr UE.<br><br>Fel ymateb i bryderon a fynegwyd gan Senedd Cymru, mae swyddogion wedi ystyried y gweithdrefnau sydd ar gael ar gyfer y pwerau gwneud rheoliadau y mae Gweinidogion Cymru yn meddu arnynt. Lle bo'n briodol, dewisir y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol er mwyn rhoi mwy o rôl i'r Senedd wrth graffu ar is-ddeddfwriaeth. Caiff yr offerynnau sy'n dod o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol eu gosod ger bron y Senedd a fydd yn cael cyfle i wrthwynebu yn y ffordd arferol.<br><br>Caiff crynodeb llawn o bwerau gwneud rheoliadau Gweinidogion Cymru ei ddarparu fel rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Ategol a roddwyd ger bron ar 11 Mehefin. |
| **Argymhelliad 3**<br><br>Dylai'r Gweinidog barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am | **Derbyn**<br><br>Mae fy swyddogion wedi cael trafodaethau cynhyrchiol â Llywodraeth y DU ynghylch y pryderon y tynnodd y Memorandwm sylw |

| | |
|---|---|
| feysydd sy'n peri pryder a lle mae anghytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ystod hynt y Bil trwy Senedd y DU. | atynt. Byddaf yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y gwaith sy'n cael ei wneud i'w datrys maes o law. |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon